# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|
| **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **SPECIAL MEETING OF THE PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 25 CHWEFROR, 2020 am 9.30 o'r gloch yb** | **TUESDAY, 25 FEBRUARY, 2020 at 9.30 a.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

## R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd fel a ganlyn:-

- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 24 Hydref, 2019.
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 21 Ionawr, 2020.

4 **YMDDIRIEDOLAETH GWASANAETH AMBIWLANS CYMRU** (Tudalennau 19 - 24)

- Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.
- Derbyn cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

5 **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA MEDRWN MÔN** (Tudalennau 25 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan Brif Swyddog Medrwn Môn.

6 **GWASANAETH CYNLLUNIO ARGYFWNG RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 61 - 74)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

7 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 75 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolydd Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones a Margaret Murley Roberts.<br><br>Mr Dafydd Gruffydd – Menter Môn.<br><br>Y Cynghorydd Richard A Dew - Deilydd Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (ar gyfer eitemau 3 a 4).<br><br>**Aelodau o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a wahoddwyd i'r cyfarfod mewn perthynas ag eitem 3**<br><br>Y Cynghorydd John Griffith. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol (mewn perthynas ag Eitemau 3 a 4)<br>Prif Swyddog Cynllunio (DFJ) (mewn perthynas ag Eitem 3),<br>Rheolwr Polisi Cynllunio – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (mewn perthynas ag Eitem 3),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Uwch Swyddog Cyflawni Rhaglen Ynys Ynni (DLJ) (mewn perthynas ag Eitem 4),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Alun Roberts, Nicola Roberts.<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws,<br>Deilydd Portffolio (Corfforaethol) - Y Cynghorydd Dafydd R Thomas.<br><br>Y Cynghorydd Robin Williams (gwahoddwyd i'r cyfarfod mewn perthynas ag Eitem 3).<br><br>Mrs Anest G Frazer – Yr Eglwys yng Nghymru,<br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig,<br>Mr Dyfed Jones – Rhiant Lywodraethwr (Sector Ysgolion Cynradd). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

Llongyfarchodd y Cadeirydd Mrs Annwen Morgan ar ei phenodiad yn Brif Weithredwr a llongyfarchodd Mr Dylan Williams, ar ei benodiad yn Ddirprwy Brif Weithredwr.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd K P Hughes ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3 – Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2019 ac ni chymerodd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais.

**3 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD 2019**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol mewn perthynas â'r Adroddiad Monitro Blynyddol 2019 – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cofnodi canfyddiadau gwaith monitro gweithrediad strategaethau a pholisïau'r cynllun rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fel arfer, mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad monitro blynyddol cyntaf erbyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r cynllun datblygu lleol. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn ddiwedd mis Gorffennaf 2017. O'r herwydd, er mwyn cynnwys blwyddyn ariannol gyflawn, dyma'r cyfle cyntaf i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod rhaid i'r Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys fframwaith monitro a'i fod yn gyfrwng allweddol ar gyfer darparu adborth fel rhan o'r broses gylchol o lunio polisïau cynaliadwy. Mae prif ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol fel a ganlyn:-

- Mae 55% o unedau tai a ganiatawyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol. Rhoddwyd caniatâd i 23% o unedau mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol a 22% mewn Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad Agored sy'n cyd-fynd â strategaeth ddosrannu tai y Cynllun;
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 543 o unedau tai newydd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol h.y. safleoedd nad oedd â chaniatâd cynllunio ar y diwrnod y cafodd y Cynllun ei fabwysiadu;
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 202 o dai fforddiadwy yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol;
- Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol (2017-2019), cwblhawyd 348 o unedau tai ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer tai;
- Cwblhawyd 254 o unedau fforddiadwy yn 2017-19. Roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd yn 2018/19 (193 o unedau) o gymharu â blynyddoedd blaenorol;

- Derbyniodd y Cyngor 62 o apeliadau yn ystod y Cyfnod Monitro a diystyriwyd 74% ohonynt. Nid oedd yr apeliadau a ganiatawyd yn tanseilio polisïau allweddol y Cynllun.

Nododd y Swyddog bod casgliad yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn un cadarnhaol a bod polisïau cynllunio yn cael eu gweithredu. Dywedodd, o ganlyniad i brif ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol, nad oes tystiolaeth i awgrymu bod angen cynnal adolygiad cynnar o'r Cynllun.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd sut mae pris tŷ fforddiadwy yn cael ei ddiffinio? Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd bod fformiwla i gyfrifo canran o gyflogau trigolion yr ardal yn cael ei defnyddio i benderfynu ar brisiau tai fforddiadwy (sydd yn rhan o ddatblygiadau newydd). Nododd bod Canllaw Cynllunio Atodol wedi'i lunio sydd yn rhoi gwybodaeth fanwl am dai fforddiadwy mewn gwahanol ardaloedd. Bydd cytundeb Adran 106 yn cael ei osod ar unrhyw ganiatâd cynllunio yn ôl yr angen, i sicrhau bod y tai yn cael eu cadw fel tai fforddiadwy. Cyfeiriwyd bod rhai datblygwyr yn nodi nad yw datblygiad yn hyfyw oni bai bod modd iddynt leihau cyfran y tai fforddiadwy sy'n rhan ohono. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod ceisiadau i leihau elfen fforddiadwy unrhyw ddatblygiad yn cael eu hasesu a bod y dystiolaeth a gyflwynir i gyd-fynd â'r ceisiadau hynny'n cael ei harchwilio;
- Gofynnwyd a oes trefniadau mewn lle i sicrhau bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ddigon cadarn a'i fod yn cydymffurfio â rheoliadau statudol. Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio bod Llywodraeth Cymru yn pennu fframwaith statudol ar draws Cymru mewn perthynas â'r Adroddiad Monitro Blynyddol a bod rhaid i bob Cynllun Datblygu Lleol lynu at y fframwaith. Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod angen llunio fersiwn 'hawdd ei deall' o'r ddogfen y flwyddyn nesaf;
- Nodwyd nad yw'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cyfeirio at newid hinsawdd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol fod yr Adroddiad Monitro Blynyddol wedi ei lunio i gydymffurfio â'r fframwaith statudol. Nododd bod modd i'r Pwyllgor hwn ofyn i Swyddogion gynnwys materion yn ymwneud ag allyriadau carbon yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf. Ychwanegodd fod Swyddogion yn y Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio ar strategaeth ynni a lleihau carbon ar gyfer y Cyngor fydd yn lleihau ôl-troed carbon i sicrhau bod yr Awdurdod yn chwarae rhan flaenllaw o ran cyflawni'r targed statudol i leihau carbon a osodwyd gan y llywodraeth ar gyfer 2030 a 2050.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith:-**

- **Bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2019 yn gosod y sylfaen ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd;**
- **Cadarnhau bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn perfformio'n briodol hyd yma;**
- **Nodi nad oes unrhyw bolisi cynllunio unigol yn methu â chyflawni ei amcanion;**

- **Bod swyddogion yn cael eu gwahodd i ystyried dull o ddarparu fersiwn weledol, hawdd ei deall o’r Adroddiad Monitro Blynyddol (ar gyfer y cyfnod Ebrill 2019 i Mawrth 2020).**

  **GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod**

## 4 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol mewn perthynas ag Ymateb Drafft i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol fod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn gynllun datblygu newydd fydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer datblygiad yng Nghymru o 2020 i 2040. Mae’n gosod strategaeth ar gyfer mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy’r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi llewyrchus, lleihau carbon, datblygu ecosystemau gwydn a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Mae’r FfDC yn gynllun gofodol, sy’n golygu ei fod yn gosod cyfeiriad ynghylch ble y dylid buddsoddi mewn seilwaith a datblygiad er lles Cymru a’i phobl. Yr FfDC fydd yr haen uchaf o gynllun datblygu ac mae’n canolbwyntio ar faterion a heriau ar lefel genedlaethol. Oherwydd ei natur strategol, nid yw’n neilltuo datblygiad i bob rhan o Gymru ac nid yw ychwaith yn cynnwys polisïau ar bob math o ddefnydd tir. Dywedodd ei bod yn hollbwysig ymateb i’r FfDC i sicrhau bod polisi cynllunio ar yr haen uchaf yn addas i bwrpas a bod aliniad clir rhwng dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn o’r lefel leol i’r lefel genedlaethol fydd yn gosod cyfeiriad i fuddsoddiad mewn seilwaith a datblygiad yn y dyfodol.

Ychwanegodd bod hyn yn gyfle i’r Cyngor ddylanwadu ar gynnwys y FfDC fydd yn siapio datblygiad y genedl yn ystod yr ugain mlynedd nesaf. Dywedodd mai Llywodraeth Cymru sy’n penderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn hytrach na’r awdurdod cynllunio lleol. Cyfeiriodd at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ynghylch Fferm Solar Traffwll fel enghraifft. Mae’r fferm solar arfaethedig yn safle 289 acer ar dir fferm mewn 7 ardal i’r de o’r A55. Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu ar y cynnig hwn. Nododd y byddai gan y FfDC fwy o ddylanwad ar unrhyw benderfyniad na pholisïau Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol fod y Cyngor Sir yn cefnogi’r egwyddor o greu FfDC ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor bryderon ac amheuon mewn perthynas â nifer o themâu a pholisïau yn y FfDC drafft. Dywedodd bod angen mynegi’n bendant na fydd rhai o’r prosiectau sy’n rhan o’r FfDC yn cydweddu â thirwedd yr Ynys. Mae’r FfDC yn cynnig bod canol yr Ynys yn addas ar gyfer ffermydd gwynt a ffermydd solar ac, yn ôl Llywodraeth Cymru, mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt a solar mawr ar y tir yn yr ardaloedd â blaenoriaeth. Dywedodd nad yw swyddogion yn ystyried bod datblygu tyrbinau gwynt 250 metr o uchder yn addas i’r Ynys. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol bod y Cyngor yn synnu nad yw Caergybi’n cael ei chydnabod na’i diffinio fel Ardal Dwf Rhanbarthol ar gyfer Cymru, yn arbennig o

ystyried bod yr FfDC yn cyfeirio’n benodol at bwysigrwydd Porthladd Caergybi i wasanaethu Cymru, y DU ac Iwerddon.

Noda’r FfDC y bydd lefel newydd o bolisïau cynllunio yn cael eu creu h.y. Polisïau Cynllunio Cenedlaethol, Polisïau Cynllunio Rhanbarthol a Pholisïau Cynllunio Lleol. Cwestiynodd y Cyfarwyddwr Lle a Lles Cymunedol yr angen am dair haen o bolisïau gan fod adnoddau llywodraeth leol eisoes dan bwysau ac mae’r Awdurdod hwn wedi cytuno ar Bolisi Cynllunio ar y Cyd gyda Chyngor Gwynedd.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol sylw at y ffaith fod rhai Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi cael eu hepgor o’r FfDC:-

- Prosiectau ynni carbon isel
- Dim digon o gyfeiriadau at ardaloedd gwledig
- Polisi Dynodedig ar gyfer yr Iaith Gymraeg
- Dim cyfeiriad at drydedd bont
- Tai fforddiadwy
- Pwysigrwydd y Maes Awyr yn y Fali ar gyfer y cysylltiad rhwng Gogledd a De Cymru

Nododd fod Swyddogion yn y Cyngor yn tynnu sylw at bryderon yr Awdurdod mewn grwpiau prosiect ar lefel rhanbarthol ac mae’r Prif Weithredwr yn codi materion sy’n peri pryder yng nghyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i’r adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- Gofynnwyd sut bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Arfaethedig yn effeithio ar raglen waith strategol y Cyngor a llesiant cymunedol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol mai dogfen ddrafft yw’r FfDC ar hyn o bryd ac y byddai’r ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi ym mis Medi 2020. Yn dilyn hynny, bydd rhaid i’r Cyngor roi sylw i’r fframwaith polisi, dros gyfnod o 20 mlynedd, wrth siapio twf a datblygiad yr Ynys yn y dyfodol, er lles trigolion a’r genhedlaeth nesaf. Yn ogystal, bydd rhaid cynnal adolygiad cadarn o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i sicrhau fod y ddwy ddogfen yn cyd-fynd â’i gilydd;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y FfDC yn dynodi cyfran fawr o’r Ynys fel ardal addas ar gyfer ffermydd gwynt a ffermydd solar. Gofynnwyd beth fyddai’r effeithiau posib ar Lu Awyr Brenhinol y Fali a’r maes awyr ym Mona. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol y bydd rhaid cynnal trafodaeth gyda’r Weinyddiaeth Amddiffyn ynghylch effeithiau’r cynigion hyn yn y FfDC;
- Gofynnwyd a yw ymateb drafft y Cyngor i’r FfDC yn ddigon cadarn ac yn addas i bwrpas. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol bod y dyddiad cau ar gyfer ymateb i’r FfDC wedi cael ei ymestyn i 15 Tachwedd ac y byddai modd cynnwys unrhyw faterion neu bryderon sydd gan Aelodau Etholedig o dan unrhyw bennawd yn ymateb yr Awdurdod cyn cyflwyno’r ymateb ffurfiol i’r fframwaith;
- Nodwyd y byddai’n briodol gwahodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg i gyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini hwn mewn perthynas â’r angen i gynnwys polisi dynodedig ar gyfer yr Iaith Gymraeg o fewn y Fframwaith Cenedlaethol.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai modd gwahodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg naill ai i'r cyfarfod hwn neu i Sesiwn Briffio Aelodau;

- Cyfeiriwyd at y siom ynghylch y ffaith nad yw Caergybi'n cael ei chydnabod na'i diffinio fel Ardal Dwf Rhanbarthol ar gyfer Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol ei bod yn bwysig i Gaergybi gael ei diffinio fel Ardal Dwf Rhanbarthol gan y byddai hynny'n ei gwneud yn haws denu arian ar gyfer prosiectau yn y dref h.y. tuag at Ganolfan Feddygol, ysgolion. Nododd y byddai'n anodd denu arian sector cyhoeddus ar gyfer prosiectau yn nhref Caergybi oni bai ei bod yn cael statws Ardal Dwf Rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD-**

- **argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod ymateb drafft y Cyngor i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cael ei gymeradwyo**
- **gwahodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg naill ai i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini hwn neu i Sesiwn Briffio misol ar gyfer Aelodau mewn perthynas â'r angen am bolisi dynodedig ar gyfer yr Iaith Gymraeg o fewn y Fframwaith Cenedlaethol.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 5 CRAFFU AR BARTNERIAETHAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr ynghylch Craffu ar Bartneriaethau.

Adroddodd y Prif Weithredwr bod gweithio mewn partneriaeth bellach yn rhan bwysig o arferion gweithio'r Awdurdod, a'i fod yn cryfhau capasiti'r Awdurdod i ddarparu gwasanaethau.

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini fod gan y Cyngor Sir brofiad helaeth o weithio mewn partneriaeth, boed ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol. Gyda phwysau cynyddol ar adnoddau cyhoeddus, mae gan y Cyngor ganllawiau clir ar gyfer penderfynu pryd i sefydlu partneriaethau, pa wasanaeth(au) a'r canlyniadau disgwyliedig ac ar gyfer rheoli'r berthynas yn gadarn er mwyn:-

- Ein galluogi i gyflawni Cynllun y Cyngor a'n blaenoriaethau strategol. Hefyd, i wella profiad a chanlyniadau unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau;
- Rhoi tystiolaeth o werth am arian neu gost-effeithlonrwydd wrth fuddsoddi yn y dyfodol a sicrhau canlyniadau clir a mesuradwy;
- Ymateb i risgiau yn gysylltiedig â phartneriaethau a sicrhau fod meysydd i'w datblygu'n cael sylw;
- Cael eglurder ynghylch atebolrwydd a threfniadau monitro;
- Nodi unrhyw le y gellir rhesymoli partneriaethau a sicrhau trefn glir ar gyfer dod ag unrhyw drefniadau i ben.

Mae'r maes gwaith hwn yn canolbwyntio ar bartneriaethau lle mae'r Cyngor yn dewis gweithio gyda sefydliadau eraill yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Ychwanegodd y Rheolwr Sgriwtini bod gan y Cyngor Gofrestr o Bartneriaethau Corfforaethol ar gyfer yr holl bartneriaethau allweddol a'i bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Ychwanegodd bod rhaid parhau i reoli'r dasg o graffu

ar bartneriaethau, gan ganolbwyntio ar bartneriaethau strategol allweddol sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau. Nododd bod angen i Flaenraglen Waith y Pwyllgor hwn flaenoriaethu cydbwysedd priodol o bartneriaethau statudol, partneriaid allweddol y mae'r Cyngor yn gweithio â nhw a chyrff eraill.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- Dywedodd un o'r Aelodau bod angen rhaglennu gwaith craffu ar bartneriaethau dros gyfnod o 18 mis ac y dylai Aelodau Etholedig sy'n cynrychioli'r Cyngor ar sefydliadau partner ddarparu adroddiad blynyddol yn manylu ar ganlyniadau gwaith y bartneriaeth y maent yn aelod ohoni. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn croesawu'r awgrym bod Aelodau Etholedig yn llunio adroddiadau blynyddol ar sefydliadau partneriaeth gan fod y Cyngor yn rhoi dyraniad ariannol i'r sefydliadau hyn. Ychwanegodd y byddai adroddiadau blynyddol o'r fath yn darparu gwybodaeth am sut mae'r bartneriaeth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymunedau lleol ac a yw'r Cyngor yn cael y gwerth gorau am yr adnoddau a ddarparwyd ganddo.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cefnogi'r gwaith craffu ar bartneriaethau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2018/19;**
- **Cefnogi'r partneriaethau y mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn bwriadu eu blaenoriaethu ar raglen waith y Pwyllgor yn ystod y 18 mis nesaf;**
- **Bod Aelodau Etholedig yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ar y sefydliadau partner y maent yn gynrychiolwyr arnynt.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.35 pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO
## Cofnodion cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Mrs Anest Frazer – Yr Eglwys yng Nghymru,<br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig,<br>Mrs Llio Johnson – Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY<br>Mr Dyfed W Jones – Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd.<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws (ar gyfer eitemau 4, 5 a 6);<br>Y Cynghorydd R Meirion Jones (ar gyfer eitemau 4 a 5),<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (ar gyfer eitemau 4, 5 ac 8).<br><br>**Aelodau eraill o'r Cyngor Sir a wahoddwyd ar gyfer Eitemau 4 a 5 (Materion Addysgol)**<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Dew, John Griffith, Carwyn Jones, Peter S Rogers, Dafydd R Thomas a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitemau 4 a 5),<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 6),<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 8),<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 6 & 8),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Gwasanaeth – Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Oedolion)(BW) (ar gyfer eitem 6),<br>Rheolwr Rhaglen – Gwasanaethau Oedolion (ST) (ar gyfer eitem 6),<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME),<br>Rheolwr Prosiect (AR) (ar gyfer eitem 8),<br>Rheolwr Sgriwtini,<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mrs Sharon Vaughan a Mr Rhys Williams – GwE (ar gyfer eitem 4). |

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Llio Johnson – Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

Hefyd croesawodd y Cadeirydd Mrs Sioned Rowe, Swyddog Craffu sydd newydd ei phenodi i'r cyfarfod.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Glyn Haynes ddatgan diddordeb personol yn Eitem 8 ond cymerodd ran yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ond ni fwriodd bleidlais.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd, 2019 yn gywir.

## 4 ADRODDIAD SAFONAU YSGOLION (HAF 2019)

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar yr uchod.

Amlinellodd Deilydd Portffolio - Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant argymhellion yr adroddiad i'r Pwyllgor a nododd mai blaenoriaethau'r Cyngor yw parhau i godi safonau mewn addysg er mwyn rhoi cyfle i ddisgyblion gael y sgiliau gorau posibl yn ysgolion Môn.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc drosolwg manwl o'r adroddiad a dywedodd fod Llywodraeth Cymru ynghyd â nifer o bartneriaid ac arbenigwyr wedi cynnal adolygiad sylfaenol o'r system atebolrwydd ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Amlygodd y canfyddiadau fod llawer o ganlyniadau negyddol nas bwriadwyd i'r system bresennol a'i defnydd o fesurau perfformiad. Cafodd datganiad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, CLILC ac Estyn i Gadeiryddion Sgriwtini, Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr Addysg a Rheolwyr Gyfarwyddwyr y Consortia Addysg Rhanbarthol a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf, 2019 ei gynnwys yn yr adroddiad i'r pwyllgor. Dywedodd fod newidiadau cenedlaethol wedi cael eu cyflwyno i'r broses o adrodd ar asesiadau athrawon dros y ddwy flynedd diwethaf a bod hyn yn cefnogi prif amcanion dogfen Cymru: 'Cenhadaeth ein Cenedl', wrth ddarparu trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system sy'n gwella ei hun. Erbyn hyn, mae mwy o ffocws ar ddefnyddio data mewn hunanwerthuso ysgolion. Yn y system ddiwygiedig, gwerthusir ysgolion yn ôl y gwahaniaeth a wnânt i gynnydd pob plentyn. Hefyd dywedodd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y prif feysydd gwella fel rhan o Gynllun Busnes Lefel 2 wedi'u cynnwys ar dudalen 33 o'r adroddiad.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Rhys Williams, Ymgynghorydd Her Ysgolion (Cynradd) ac i Mrs Sharon Vaughan, Ymgynghorydd Her Ysgolion (Uwchradd) i'r cyfarfod.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Her Ysgolion (Cynradd) ddadansoddiad manwl o ddata perfformiad i'r Pwyllgor.

**Cyfnod Sylfaen**

- Fel y llynedd, dylid osgoi cymharu canlyniadau Cyfnod Sylfaen mewn iaith a mathemateg â blynyddoedd blaenorol ar lefel ysgol gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymaradwy. Mae Llywodraeth Cymru'n glir y bydd y ffocws ar gynnydd dysgwyr o'r asesiad gwaelodlin hyd at ddiwedd y Cyfnod Allweddol ac felly, am y tro cyntaf, caiff hyn ei gynnwys ar ddiwedd y flwyddyn adroddd;
- Yn gyffredinol, mae safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn Ynys Môn yn foddhaol. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae wedi bod felly am y tair blynedd diwethaf. Fel y rhagwelwyd yn gyffredinol, yn sgil gweithredu'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen newydd, bu gostyngiad yng nghanran y disgyblion a gyflawnodd y deilliannau disgwyliedig drwy Gymru yn 2018/19. Roedd perfformiad yr awdurdod lleol yn adlewyrchu hyn yn y DCS ac ym mhob maes dysgu;
- Mae effaith y gostyngiad yn y Gymraeg 05 + wedi cael effaith ar berfformiad yn y DCS. Bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr a gyflawnodd y deilliannau uwch hefyd yn genedlaethol ac eto adlewyrchwyd hyn yn neilliannau ysgolion ALl Ynys Môn;
- Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn Ynys Môn wedi aros yn debyg i'r llynedd, gyda merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob maes dysgu o ryw 14%. Mae'r anghysondeb yn y deiliannau uwch lle mae bechgyn yn perfformio ychydig yn well na merched mewn Datblygiad Mathemategol;
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir y dylid canolbwyntio ar gynnydd Gwerth Ychwanegol rhwng y llinell sylfaen a diwedd y Cyfnod Sylfaen wrth werthuso cyflawniad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cynnydd y disgyblion cyfatebol o garfan Derbyn 2017 Ynys Môn i ddiwedd Cyfnod Sylfaen 2019 yn dda. Mae disgyblion yn gwneud o leiaf 3.28 o ganlyniadau cynnydd ym mhob maes. Gwneir y cynnydd mwyaf yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion yn gwneud cyfartaledd o 3.67 o ganlyniadau cynnydd. Mae'r data yn cadarnhau bod ysgolion yr awdurdod lleol yn dangos dull effeithiol a pharhaus o gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd drwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

**Cyfnod Allweddol 2**

- Yn gyffredinol, mae'r safonau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn Ynys Môn yn dda. Roedd perfformiad yn 2019 yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol ac i ganlyniadau cyfartalog blynyddoedd blaenorol mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae canlyniadau Cymraeg gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac maent wedi gostwng eto o gymharu â chanlyniadau

2018. Mae perfformiad ar y lefelau uwch hefyd yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol mewn Saesneg a Mathemateg, ac ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn Gwyddoniaeth. Mae safonau cyrhaeddiad yn y Gymraeg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol am yr ail flwyddyn yn olynol;

- Mae gostyngiad bach yng nghanran y disgyblion sydd a'r hawl i brydau ysgol (eFSM) a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig yn 2019 yn y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC). Ar y lefelau uwch, gwelwyd gwelliant ym mherfformiad disgyblion Ynys Môn yn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda mwy o ddisgyblion eFSM yn cyflawni'r deilliannau uwch nag unrhyw flwyddyn flaenorol;
- Bu gostyngiad ym mherfformiad bechgyn yn ôl y disgwyl yn y DPC, tra cynyddodd y bwlch rhwng bechgyn a merched o’i gymharu â 2018. Mae'r gwahaniaeth mwyaf mewn perfformiad yn y pynciau craidd i'w weld yn y canlyniadau Saesneg eleni. Ar y lefelau uwch, mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched wedi lleihau yn y Gymraeg, ond mae wedi cynyddu mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer perfformiad bechgyn/merched ar y lefelau uwch eleni yn dangos cynnydd cyffredinol yn y gwahaniaeth ar draws y pynciau.

Rhoddodd Ymgynghorydd Her Ysgolion (Uwchradd) ddadansoddiad manwl o’r data perfformiad i’r Pwyllgor.

**Cyfnod Allweddol 3**

- Mae'r canlyniad eleni yn dechrau adlewyrchu'r newidiadau cenedlaethol, gyda phrif ffocws asesiadau athrawon wedi dechrau symud yn ôl i gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr unigol ac i ffwrdd oddi wrth setiau data cyfanredol a ddefnyddir i ddwyn ysgolion i gyfrif;
- Yn genedlaethol, roedd canran y disgyblion a lwyddodd i gyrraedd o leiaf y lefel ddisgwyliedig yn is na 2018 yn y DPC ac ym mhob un o'r pynciau craidd. Mae DPC Ynys Môn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda gostyngiad o 4.4% o gymharu â pherfformiad 2018. Roedd perfformiad y garfan o 2019 ar y lefel ddisgwyliedig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mron pob un o'r pynciau craidd, ac eithrio Saesneg. Roedd perfformiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn is na 2018 , bu gostyngiad o -2.1%.
- Gwelwyd gostyngiad ym mherfformiad bechgyn a merched yn y DPC ac ar draws y pynciau craidd yn 2019. Mae perfformiad bechgyn yn y DPC, Cymraeg a Gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae eu perfformiad yn gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol mewn mathemateg. Mae perfformiad merched ar Ynys Môn yn uwch na'r DPC cyfartalog a phob un o'r pynciau craidd ac mae perfformiad bechgyn ar y lefelau uwch mewn Mathemateg wedi gwella eleni ond wedi gostwng yn y pynciau craidd eraill;
- Cynyddodd canran y disgyblion eFSM a gyflawnodd y deilliannau disgwyliedig ar draws yr Awdurdod yn 2019 yn y Gymraeg, ond gwelwyd gostyngiad yn y pynciau craidd eraill a'r DPC. Ar y lefel uwch, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion eFSM Ynys Môn mewn Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ond bu gostyngiad yn Saesneg.

**Cyfnod Allweddol 4**

- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r Rhaglen Diwygio Addysg ar gyfer Cymru, fesurau perfformiad ar gyfer adrodd ar ddata canlyniadau Cyfnod Allweddol 4. Y prif ddangosydd (sgôr pwyntiau 'capio 9') yw perfformiad ar gyfer y dyfarniadau gorau ar gyfer pob disgybl unigol yn y garfan, wedi'i gapio ar nifer penodol o gymwysterau TGAU neu gyfwerth. Yn 2019, casglwyd data o fewn Cyfnod Allweddol 4 ar berfformiad yr arholiadau mynediad cyntaf a gymerwyd gan ddisgyblion ac felly mae'n amhosibl cymharu â mesurau perfformiad blaenorol gan mai'r mynediad cyntaf sy'n cyfrif yn hytrach na'r canlyniadau gorau;
- Mae perfformiad yr awdurdod lleol yn y prif ddangosydd (capio 9) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda pherfformiad mewn dwy ysgol uwchradd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol a pherfformiad wedi'i fodelu. Mae perfformiad yr Awdurdod yn is na'r perfformiad disgwyliedig mewn dwy ysgol uwchradd.
- Mae'r cap ar berfformiad wedi lleihau rhwng bechgyn a merched eleni ac mae perfformiad disgyblion eFSM a phlant nad ydynt yn eFSM yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda chynnydd bach yn y bwlch mewn perfformiad o'i gymharu â 2018;
- Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y gymhariaeth (gweler tudalennau 27 a 28 yr adroddiad) ynghylch perfformiad mewn Dangosyddion Tystysgrif Her Llythrennedd, Rhifedd, Gwyddoniaeth a Sgiliau Bagloriaeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd yr Ynys.

**Cyfnod Allweddol 5**

- Dangoswyd gostyngiad bach yng nghyfanswm nifer y cofrestriadau ar gyfer lefel A yn Ynys Môn. Yn ystod cyfnod treigl o 3 blynedd gwelwyd gwelliant mewn deilliannau ar raddau A*/A a graddau A*-C;
- Mae data gwerth ychwanegol ALPs sy'n seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd gan ysgolion yn awgrymu bod disgyblion ôl-16 yn Ynys Môn yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r data hwn yn awgrymu bod ysgolion Ynys Môn, ar y sgôr 'T', yn perfformio yn y 40% uchaf o ysgolion yn y gronfa ddata o ysgolion ar draws Cymru a Lloegr, sy'n well na pherfformiad y blynyddoedd blaenorol;
- Mae pedair o'r pum ysgol uwchradd yn Ynys Môn wedi gwella eu perfformiad yn y Dangosydd Ansawdd gydag un ysgol yn gwneud cynnydd rhagorol eleni ac ymhlith y 25% ychaf o ysgolion yn y gronfa ddata o ysgolion yng Nghymru a Lloegr.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion canlynol:

- Gofynnwyd am eglurhad a oedd digon o adnoddau CBAC bellach ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i alluogi disgyblion i lwyddo yn eu harholiadau. Dywedodd yr Ymgynghorydd Her Ysgolion (Uwchradd) ei bod yn gyfrifoldeb ar CBAC i ddarparu adnoddau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer Cyfnodau Allweddol 4 a 5. Cytunodd fod achosion wedi bod lle nad yw'r adnoddau yn y ddwy iaith wedi bod ar gael ar gyfer rhai pynciau ond yn ddiweddar nid yw'r un ysgol wedi adrodd nad yw'r adnoddau gan CBAC yn ddigonol;

- Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r rhesymau pam fod y data asesu yn ystod Cyfnod Allweddol 2 o ran y Gymraeg wedi gostwng o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedodd yr Ymgynghorydd Her Ysgolion (Cynradd) fod cynradd ysgolion yn asesu'r data Cymraeg cynradd fel iaith gyntaf. Bydd angen aros am ddata perfformiad am bedair blynedd o ran y polisi Addysg newydd ar gyfer y plant hynny nad ydynt wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd fod ysgolion yn ymwybodol o'r mater hwn a'u bod yn parhau i fonitro'r sefyllfa;
- Cyfeiriwyd at y newidiadau cenedlaethol i'r diwygiad addysgol a chodwyd cwestiynau ynghylch a yw'r newidiadau diweddar yn golygu bod modd nodi meysydd gwan o fewn y system addysg. Dywedodd yr Ymgynghorydd Her Ysgolion (Cynradd) ei bod yn hanfodol bod y prosesau asesu o fewn yr ysgolion yn ddigon cadarn i fesur gwelliant plant. Roedd yn ystyried bod y newidiadau addysgol cenedlaethol newydd wedi mireinio prosesau ysgolion wrth gasglu data; mae GwE yn cefnogi ysgolion gyda'r prosesau monitro o fewn y system addysg. Dywedodd yr Ymgynghorydd Her Ysgolion (Uwchradd) fod newid o fewn y sector uwchradd wedi digwydd yng Nghyfnod Allweddol 4 nad yw ysgolion uwchradd yn canolbwyntio'n benodol ar berfformiad A *-C ond bod pob gradd yn cael ei monitro fel system bwyntiau o fewn y broses arholi; mae hyn yn caniatáu i ysgolion ganolbwyntio'n ehangach ar ffin graddau C-D fel oedd yn digwydd o'r blaen;
- Gofynnwyd am eglurhad pam fod perfformiad ysgolion yn Lloegr yn well nag ysgolion yng Nghymru. Atebodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cydweithio rhwng ysgolion o fewn strwythur penodol yn hollbwysig i wella perfformiad ysgolion. Nododd fod GwE yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg sydd wedi gweithio'n llwyddiannus o fewn ysgolion yn Lloegr a gwledydd eraill mewn perthynas â strwythur gwaith penodol mwy effeithiol o fewn cydweithio mewn ysgolion.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad ar Ddeilliannau Ynys Môn 2019;**
- **Cymeradwyo prif feysydd gwella ALl Ynys Môn;**
- **Cymeradwyo'r datblygiadau o safbwynt y gwaith ymgysylltu â phartneriaid yn Ynys Môn;**
- **Cymeradwyo'r broses atebolrwydd rhwng Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn a GwE.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod**

**5 PANEL ADOLYGU GWELLA YSGOLION : ADRODDIAD CYNNYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini ynghylch cynnydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.

Amlinellodd y Cadeirydd a Chadeirydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi bod yr adroddiad cynnydd hwn yn cynnwys cyfeiriad at dri chyfarfod diwethaf y Panel yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr, 2019. Dywedodd fod Aelodau'r Panel wedi bod yn cysgodi gweithgareddau GwE o fewn ysgolion a'u bod wedi monitro'r heriau o fewn ysgolion. Mae'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y trefniadau cysgodi hyn yn cynnwys trefniadau i Aelodau

adrodd yn ôl yn dilyn gweithgareddau cysgodi unigol cyn y rhoddir gwahoddiad i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu ysgolion annerch y Panel Adolygu Gwella Ysgolion.

Dywedodd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a Deilydd Portffolio - Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant wedi dweud eu bod yn croesawu'r cynnydd a wnaed gan y Panel Adolygu Gwelliant Ysgolion o fewn ysgolion yr Awdurdod. Dywedodd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei fod yn cael adborth cadarnhaol gan Benaethiaid sydd wedi annerch y Panel ac yn enwedig i ymweliadau Aelodau'r Panel sydd wedi cysgodi gweithgareddau GwE o fewn yr ysgolion.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r:-**
  - **Cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflwyno rhaglen waith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion sy'n cynnwys herio perfformiad ysgol unigol yn gadarn;**
  - **Y meysydd gwaith a gafodd sylw drwy'r trefniadau newydd a gyflwynwyd yn ystod cyfnod cysgodi GwE;**
  - **Canlyniadau'r ymarferiad pwyso a mesur a'r ymarfer blaengynllunio a gynhaliwyd gan y Panel yn ddiweddar;**
  - **Yr angen i adolygu cylch gorchwyl y Panel er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn barhaus â blaenoriaethau corfforaethol a chanlyniadau'r ymarfer pwyso a mesur.**
  - **Cadernid trefn fonitro'r panel hyd yma.**

**GWEITHREDU: Nodi'r adroddiad.**

**6 ANABLEDDAU DYSGU - TRAWSNEWID CYFLEOEDD DYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Deilydd Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn bwysig nodi mai'r bobl sy'n defnyddio cyfleoedd dydd anableddau dysgu sy'n bwysig wrth ystyried yr adroddiad hwn a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Diolchodd i'r Swyddog am ei waith yn trafod gyda'r defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'r darparwyr gwasanaeth ynglŷn â'r cyfleusterau y maent yn awyddus i'w gweld yn y dyfodol.

Adroddodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn angenrheidiol ail-lunio a moderneiddio'r gwasanaethau cyfleoedd dydd er mwyn datblygu cyfleoedd cynaliadwy i unigolion gyflawni eu potensial a gwella ymhellach y modd y cyflenwir y gwasanaeth yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Nododd fod gan y Cyngor nifer o gyfleoedd dydd gwahanol ar hyn o bryd i bobl ag anableddau dysgu, gyda rhai ohonynt yn wasanaethau mewnol sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor ac eraill sy'n cael eu comisiynu'n allanol. Mae'r ddarpariaeth fewnol bresennol ym Morswyn, Caergybi, Blaen y Coed, Llangoed, Gerddi Haulfre, Llangoed a'r Gors Felen,

Llangefni.  Nid yw gweithdy Canolfan Byron wedi'i gynnwys yn y gwaith o drawsnewid y canolfannau dydd i bobl anabl ar hyn o bryd ond bydd yn cael ei adolygu o dan ffrwd waith ar wahân.   O dan gyfarwyddyd Bwrdd Trawsnewid Gwasanaeth Oedolion trefnwyd cyfres o ymweliadau â chanolfannau dydd amrywiol ar yr Ynys gyda chyfleoedd i bob Aelod Etholedig fynd iddynt. Cynhaliwyd gweithdai i gynnal arfarniad o'r opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer dyfodol y canolfannau dydd.  Nododd fod y gwasanaeth yn ymgymryd â'r newidiadau hyn er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn y galw a sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Mae’r heriau allweddol a wynebir gan y canolfannau dydd mewnol presennol wedi'u cynnwys ar dudalen 7 yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ymhellach mai'r cynnig yw datblygu mwy o gyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anableddau dysgu, ehangu’r ddarpariaeth yng Ngors Felen a chau'r gwasanaethau a ddarperir ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre.  Byddai'r gwasanaeth newydd yn cynnig cyfleoedd hyblyg i bobl ag anableddau dysgu a byddai'n bodloni’r galw yn y dyfodol gan gynnwys pobl ag anghenion mwy cymhleth.

Roedd yr Aelodau'n cytuno bod angen adolygu a gwella'r gwasanaethau dydd a gynigir i bobl ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, mae angen cynnwys y drafodaeth gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd mewn trafodaeth onest ac addysgiadol o ran y cyfleusterau a gynigir yn y dyfodol ac mae angen i bobl ag anableddau dysgu fod yn ganolog i'r drafodaeth hon.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion canlynol:-

- Gofynnwyd am eglurhad o'r amserlen y mae'r Gwasanaethau Oedolion yn ei hystyried, ar ôl ymgynghori a allai arwain at gau rhai o'r cyfleusterau dydd anableddau dysgu.  Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd angen ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ac y byddai unrhyw benderfyniad i gau unrhyw gyfleuster anabledd dysgu yn cael ei wneud dros gyfnod o amser. Dywedodd Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio - Gwasanaethau Cymdeithasol na fydd rhai o'r cyfleusterau a gynigir gan y Cyngor mewn lleoliadau penodol yn cau ac y gallai darparwr trydydd sector gymryd y cyfleuster drosodd.  Mae angen ymgynghori â gwasanaethau darparwyr presennol sy'n rhoi cymorth o fewn y canolfannau dydd ar gyfer anableddau dysgu o ran y gwasanaethau a ddarperir yn y canolfannau hyn;
- Cyfeiriwyd yn yr adroddiad at y ffaith bod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn gorfod teithio yn ôl a blaen i'r gwasanaethau dydd am gyfnod sylweddol o amser ar gludiant sy’n cael ei ddarparu gan y Cyngor.  Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod hwn yn fater y tynnwyd sylw ato, gyda phobl yn gorfod cymudo am gyfnod sylweddol ar gludiant a drefnir; mae Gwasanaethau Oedolion yn cydnabod ei bod yn annerbyniol i bobl orfod bod ar fysiau am gyfnod sylweddol o amser.  Mae Gwasanaethau Oedolion o'r farn y byddai cael cyfleusterau yn y gymuned yn ddarpariaeth fwy effeithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfleoedd dydd anableddau dysgu.

**PENDERFYNWYD argymell i’r Pwyllgor Gwaith:-**

- **Gefnogi'r egwyddor o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i ddatblygu cyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anableddau dysgu;**
- **Awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

**7 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

*Nododd y Cadeirydd ar y pwynt hwn, gan fod y Pwyllgor bellach wedi para am dair awr, yn unol â pharagraff 4.1.10 o Gyfansoddiad y Cyngor bod angen gwneud penderfyniad gan fwyafrif yr Aelodau hynny o'r Pwyllgor sy'n bresennol i allu parhau â'r cyfarfod.*

**8 CONTRACT GWASTRAFF**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o safbwynt dewisiadau o ran casglu gwastraff a chyflunio gwasanaeth glanhau yn barod ar gyfer y tendr terfynol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ) / Swyddog Adran 151 fod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn y broses o gaffael contract casglu gwastraff newydd a'i fod bellach wedi cyrraedd diwedd y cam cyntaf o fewn proses dendro dau gam. Cyn symud ymlaen i'r cam terfynol a derbyn y ceisiadau tendro terfynol gan y tendrwyr sydd wedi cwblhau cam cyntaf y broses, byddai lleihau nifer yr opsiynau gwasanaeth wedi'u costio yn lleihau'r risg ariannol a'r risgiau i'r gwasanaeth.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'n argymell i'r Pwyllgor Gwaith yr argymhellion fel y maent wedi'u nodi yn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod I ben am 4.40 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

F7 [16/10/17]



# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 25 Chwefror, 2020 |
| **Pwnc:** | Partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddaru Aelodau ar y berthynas rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Cyngor |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym Owen Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Sioned Rowe, Swyddog Sgriwtini<br>01248 752039<br>SionedRowe@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Ddim yn berthnasol |

**1 – Argymhelliad/ion**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini gyflwyno sylwadau ar y prif faterion a nodir yn y cyflwyniad ar lafar fel rhan o graffu trefniadau partneriaethau
2. Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn adroddiadau yn flynyddol ar waith Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Nid yw gwaith Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gysylltiedig yn uniongyrchol â Chynllun y Cyngor. Er hyn, mae'r gwaith o gydweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn hollbwysig o ran cyflawni Amcanion Cynllun y Cyngor 2017-2022, yn benodol yr amcanion isod:

**Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir**

**Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach, ac mor annibynnol â phosibl**

1. Byddwn yn creu amodau i unigolion allu gwella eu hiechyd a'u lles.

Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gynnal cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Beth sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau eich bod yn cyrraedd y targed o 65% o ran ymateb i alwadau coch ar Ynys Môn?
2. Pa sgôp sydd i wneud mwy o'r gefnogaeth gan elusennau megis y Groes Goch a St John Cymru Wales wrth ddarparu gwasanaethau ambiwlans?
3. Rydych yn nodi bod oedi o ran trosglwyddo cleifion o ambiwlansys i'r Adrannau Achosion Brys yn cael effaith ar eich gallu i ymateb i alwadau categorïau coch ac ambr. Beth ydy'r mesurau rydych yn eu cymryd ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i geisio lliniaru hyn?
4. Cyfeirir at lwyddiant y gwasanaeth Gofal Nos *(Night Owls)* a ddarperir gan Gyngor Môn er mwyn ymateb i unigolion sy'n syrthio. Pa drefniadau sydd i ehangu'r ddarpariaeth neu'r bartneriaeth o gydweithio ar brosiectau eraill gyda'r Cyngor?
5. Sonnir am y bwriad o gynyddu nifer o staff yr ambiwlans, a phenodi staff rheng flaen ychwanegol erbyn Mawrth 2021. Ydych chi'n rhagweld y bydd recriwtio yn her yn yr un modd â meysydd eraill e.e Meddygon a Nyrsys?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Bydd y cyflwyniad ar lafar yn y cyfarfod yn amlinellu hyd a lled gwaith y gwasanaeth ambiwlans, a phwysau perfformiad diweddar. Trafodir y canlynol yn benodol:

- Yr heriau a'r problemau a wynebir gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Sut mae Cynllun Integredig Tymor Canolig y sefydliad yn gwneud cyfraniad gweithredol tuag at ddarparu *Cymru Iachach*
- Amseroedd aros, gweithdrefnau rheoli galwadau, a chategoreiddio galwadau.

Bydd pwyslais yn cael ei roi ar sut mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi newid yn sylweddol, gan symud o fod yn wasanaeth cludiant yn bennaf, i un sy'n darparu gofal clinigol, a gwasanaethau cludiant sydd â phwyslais clinigol i oddeutu tair miliwn o unigolion ar draws Cymru.

Yn 2018/19, roedd y gwasanaeth yn cyflogi dros 3,000 o unigolion, yn gweithredu o 113 o adeiladau, gyda 715 o gerbydau. Mae 3 Gorsaf Ambiwlans yn Ynys Môn. Mae'r gwasanaethau yn ymwneud â thri phrif faes; gofal heb ei drefnu, gofal brys; cludiant clinigol cynlluniedig nad yw'n frys, a chyngor a brysbennu dros y ffôn ac ar-lein. Pwysleisir bod y Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn defnyddio'r *Medical Priority Dispatch System (MPDS)* er mwyn categoreiddio galwadau, sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol, ac yn cael ei ddefnyddio ar draws y byd.

Cydnabyddir pwysigrwydd cyfraniad y gwasanaeth tuag at gyflawni gweledigaeth y dyfodol ar gyfer iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar Amcan Bedwarblyg (gwell iechyd y boblogaeth, gweithlu cynaladwy, gwasanaethau hygyrch o ansawdd gwell, a gofal o safon uwch). Cydnabyddir y cyfraniad pwysig y gall y gwasanaeth ei wneud drwy well ymwybyddiaeth a phwyslais ar effeithiau tymor hirach y penderfyniadau y maent yn eu gwneud.

**Gwasanaeth a Gomisiynir**

Mae Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru yn cael eu comisiynu gan saith Bwrdd Iechyd drwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC), a'r Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans (CASC). Mae'r ddau wasanaeth ambiwlans; achosion o argyfwng ac achosion nad ydynt yn argyfwng yn cael eu comisiynu yn y modd hwn.

**Proffil Galw Môn (19/20 FYTD 31 Ionawr 2020)**

Bu 9,765 o ddigwyddiadau ym Môn yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 hyd yn hyn, gyda'r gwasanaeth yn ymateb i 7,672 o gleifion. Bu i 4,843 o'r cleifion hyn gael eu trosglwyddo i'r ysbyty, sy'n gyfradd trosglwyddo o 59.4%, wedi'u rhannu yn ôl categori fel a ganlyn: (445 Coch, 4,181 Ambr1, 2,364 Ambr2, 599 Gwyrdd2, 2,176 Gwyrdd3).

Er hynny, yn ystod 2019/20, mae patrwm y galw ar gyfer gwasanaethau wedi parhau i newid, yn enwedig o ran galwadau Coch, sydd wedi cynyddu'n sylweddol.

Mae hyn, ynghyd ag ystod eraill o ffactorau, wedi arwain at ddirywiad mewn amseroedd ymateb, a bydd y cyflwyniad ar lafar yn y cyfarfod yn ehangu ar hyn.

**Perfformiad y Gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf**

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol ar draws y Bwrdd Iechyd, ac nid yw'r gwasanaeth wedi gallu darparu gwasanaethau brys yn amserol i'r cyhoedd bob amser. Am y tro cyntaf ers cyflwyno'r model ymateb clinigol newydd ym mis Hydref 2015, mae perfformiad y gwasanaeth o ran ymateb i alwadau categorïau coch wedi syrthio yn is na'r targed o 65%. Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth, ond mae'r gwasanaeth yn cydweithio â'r byrddau iechyd a phartneriaid i fynd i'r afael â hyn. Bydd y ffigyrau manwl yn cael eu darparu yn y cyflwyniad ar lafar yn y cyfarfod.

**Gwella Perfformiad a Thrawsnewid y Gwasanaeth**

Mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau pendant i wella perfformiad a thrawsnewid y gwasanaeth, a bydd cyfeiriad penodol at y canlynol:

1. Cymryd rôl arwain system o ran gofal heb ei drefnu, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.
2. Uwch Barafeddygon Ymarferol (APPs) yn gallu trin cleifion yn fwy effeithiol yn eu cartrefi, heb fod angen gofal yn yr ysbyty.

3. Buddsoddi mewn gwasanaethau i gleifion sydd wedi syrthio, neu gleifion sydd â dementia neu iechyd meddwl.
4. Cyfraddau “hear and treat” wedi gwella.
5. Parhau i weithio gyda’r byrddau iechyd ar lwybrau cyfeirio ar gyfer nifer o gyflyrau, sy’n caniatáu i’r gwasanaeth gyfeirio at wasanaethau yn y gymuned gyda Meddyg Teulu SICAT yn gwneud penderfyniadau clinigol.
6. Cynyddu nifer y staff sy’n gweithio ar sift yn ystod cyfnod y gaeaf
7. Adolygiad galw a chapasiti wedi mynd i’r afael ag effeithlonrwydd roster.

Er hyn mae’r gwasanaeth yn parhau i edrych ar ddatrysiadau tymor hir, cynaladwy i’r materion cymhleth hyn.

**Cynllun Integredig Tymor Canolig 2021/23 (IMTP)**

Amlinellir cynnwys y Cynllun, sydd wedi ei fframio o gwmpas y cyd-destun polisi cenedlaethol, ac sy’n disgrifio ymateb sefydliadol i gefnogi gweithredu strategaeth ‘*Cymru Iachach’* ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a’r amcanion tymor hir fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’r Cynllun yn adlewyrchu adborth gan gleifion, staff a chomisiynwyr, ac yn ymateb iddo.

Mae’r IMTP ar ffurf drafft ar hyn o bryd, ond nodir y camau gweithredu a’r amcanion, a sut maent yn alinio â gyrrwyr polisi pwysig yn y cyflwyniad ar lafar. Dengys ymrwymiad y Gwasanaeth, drwy alinio bob un o’r camau gweithredu yn yr IMTP, gyda saith amcan lles Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, a hefyd amcanion pedwarplyg strategaeth *Cymru Iachach*.

**Yr Amcanion Pedwarplyg:**

I. Gwell iechyd a lles y boblogaeth,
II. Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaladwy a brwdfrydig,
III. Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy hygyrch ac o ansawdd gwell,
IV. Iechyd a gofal cymdeithasol o safon uwch.

**Amcanion y Gwasanaeth:**

1. Helpu cleifion a staff i aros yn iach,
2. Helpu cleifion allu cael mynediad yn haws at ein gwasanaethau ar yr adeg cywir,
3. Darparu’r gofal cywir yn y lle cywir, ble bynnag a phryd bynnag fo’i angen

**Y llinynau aur sy’n rhedeg drwy’r Cynllun yn ei gyfanrwydd;**

**1.** Ansawdd wrth Galon Popeth a Wnawn
**2.** Gwerth ac Effeithlonrwydd ym Mhopeth a Wnawn

**Edrych i’r Dyfodol**

Cydnabyddir yr heriau a wynebodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a system ehangach gofal heb ei drefnu dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw’r gwasanaeth yn hunanfodlon o bell ffordd, a’r nod wrth symud ymlaen yw sefydlogi perfformiad a gwireddu agweddau allweddol o’r cynllun fydd yn helpu hyn.

Mae’r Gwasanaeth yn croesawu cyflwyniad tasglu argaeledd ambiwlans, gan fod unrhyw beth sy’n ceisio sicrhau bod pwyslais yn cael ei roi ar y mater pwysig hwn yn rhywbeth i’w groesawu i’r gwasanaeth a’r cleifion fel ei gilydd. Yn yr hir dymor, y bydd rôl mae’r Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ei chwarae, yn newid i fod yn trin fwy o gleifion yn eu

| |
|---|
| cartrefi neu yn y fan a'r lle, a bod yn ddarparwr cefnogaeth a chyngor dros y ffôn a digidol. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 25 Chwefror, 2020 |
| **Pwnc:** | Gwaith partneriaeth gyda Medrwn Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno trosolwg o'r gwaith a gyflawnwyd gan Medrwn Môn yn ystod 2018-19 a'r cynnydd ar ddatblygu'r gwaith partneriaethol gyda'r Cyngor |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym Owen Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Llinos Medi |
| **Prif Swyddog-Medrwn Môn:** | Sian Purcell |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Sian Purcell<br>01248724944<br>post@medrwnmon.org |
| **Aelodau lleol:** | Ddim yn berthnasol |

**1 – Argymhelliad/ion**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi'r adroddiad, a chyflwyno sylwadau ar y prif faterion sy'n codi o'r adroddiad fel rhan o'r trefniadau craffu ar bartneriaethau.
2. Gofyn i Medrwn Môn fynychu'r Pwyllgor yn flynyddol er mwyn adrodd ar eu gwaith ar yr Ynys fel y gellir craffu ar y bartneriaeth gyda'r Cyngor.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae Cynllun y Cyngor Sir 2017-2022 gyda'r uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau a'u partneriaethau i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau posib sydd ar gael, a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ledled yr Ynys. Mae Gwaith Medrwn Môn yn cefnogi pob amcan o'r Cynllun Corfforaethol.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor

- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Ym mha ffurf mae gwaith Medrwn Môn yn ychwanegu gwerth ac yn cyfrannu tuag at gyflawni Cynllun y Cyngor Sir (2017-22)?
2. Sonnir am y bwriad o recriwtio mwy o ymddiriedolwyr at Aelodaeth y Bwrdd Rheoli. Sut fyddwch chi'n mynd ati i recriwtio'r rhain, ac i ba raddau mae'r mudiad angen sicrhau bod unigolion sydd â sgiliau penodol yn cael eu penodi?
3. Sonnir yn yr adroddiad am wella rheolaeth risg, ac am drefniadau Medrwn Môn i ddelio â risgiau a wynebir yn y tymor byr, canolig a'r tymor hir. Beth yw'r prif risgiau sy'n wynebu'r mudiad yn y blynyddoedd nesaf yn eich barn chi?
4. Dros pa gyfnod y bwriedir cryfhau trefniadau llywodraethu presennol y mudiad, a hefyd y sgôp i ddatblygu rôl y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol?
5. Sonnir bod y cyllid sydd ar gael i Medrwn Môn yn prinhau. Sut fyddwch chi'n mynd ati fel mudiad i flaenoriaethu'r gweithgareddau a gynigir i sicrhau'r budd gorau i drigolion Môn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cyflwyniad:**

Cyflwynir yr adroddiad yma i Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn.

Medrwn Môn yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol dros Ynys Môn. Mae Medrwn Môn yn fudiad aelodaeth ac yn darparu cefnogaeth a chymorth i'r sector gwirfoddol ym Môn. Mae Medrwn Môn cael ei arwain gan Fwrdd Rheoli a chyflogir 18 aelod o staff.

Mae sector gwirfoddol sy'n amrywiol a gweithgar yn rhan hanfodol o unrhyw gymuned iach a gweithgar. Mae Medrwn Môn yn cydnabod bod sector gwirfoddol effeithlon angen corff ymbarel da sy'n gweithio i helpu datblygu, annog i gydweithio, cynrychioli yn effeithiol, dylanwadu ar bolisi ac sy'n cynnig cyswllt dwy ffordd hefo gwasanaethau cyhoeddus a chyllidwyr.

Mae sector gwirfoddol iach a bywiog yn ganolog i sut mae Medrwn Môn yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau: grymuso pobl i wneud newidiadau positif, adeiladu ar gryfderau cymunedau a chefnogi gweithredu sy'n cael ei arwain gan fudiadau.

**2. Ein Nod a Chenhadaeth:**

Nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan llawn a blaenllaw i ddatblygu potential yr Ynys.
Rydym yn gweithio gyda phobl, gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a mudiadau'r sector gwirfoddol i adnabod a mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Er mwyn cyflawni'r nod, rydym yn cydweithio â phartneriaid allweddol eraill ar draws y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus, ymchwil a chyllidwyr.

Mae ein gwaith yn ffocysu'n fras ar y themâu cyffredinol yma:

- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- Dysgu a Datblygu
- Rhwydweithio, ymgysylltu a chyfathrebu
- Siapio, dylanwadu ac adeiladu ar gyfalaf cymdeithasol a gwydnwch y sector
- Codi proffil y sector

Ein pedwar piler o waith yw:

- Gwirfoddolwyr a Dinasyddiaeth
- Llywodraethu'n Dda
- Cyllido Cynaliadwy
- Ymgysylltu a Dylanwadu

Mae Medrwn Môn yn rhedeg prosiectau sy'n cefnogi ein gwaith craidd.

Mae Medrwn Môn yn ran o Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), sy'n bartneriaeth rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Mae Medrwn Môn yn un o 19 o CGSau yng Nghymru. Rydym yn rhannu y nod o alluogi'r sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr ledled Cymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, rwan ac yn y dyfodol. Ariennir Cefnogi Trydydd Sector Cymru trwy Lywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.thirdsectorsupport.wales/cy/

**3. Strwythur yr adroddiad**

Bydd yr adroddiad yma yn adlewyrchu paramedrau presennol Medrwn Môn ac hefyd yn adlewyrchu uchelgeisiau a dyheadau Medrwn Môn ar gyfer y dyfodol oddi fewn fframwaith Marc Elusennau Dibynadwy er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach. Mae Marc Elusennau Dibynadwy NCVO wedi'i hadeiladu ar un ar ddeg o feysydd ansawdd. Mae gweithio trwy'r meysydd ansawdd yn galluogi mudiad i asesu sut mae'n gwneud a chynllunio llwybr clir ar gyfer datblygu ym mhob maes.

Y meysydd ansawdd Elusennau dibynadwy:

- Llywodraethu
- Cynllunio
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Gwasanaeth defnyddiwr-ganolog
- Rheoli pobl
- Dysgu a datblygu
- Rheoli arian
- Rheoli adnoddau
- Cyfathrebu allanol
- Gweithio gydag eraill

- Asesu canlyniadau ac effaith

Mae cymhwyso gofynion Marc Elusen Ddibynadwy NCVO i'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at sicrhau'r math o newid hanfodol sydd ei angen. Bwriedir rhoi prawf ar gydnerthedd ein trefniadau llywodraethu a'n perfformiad drwy ymgeisio am nod ansawdd achrediad 'Marc Elusen Ddibynadwy'.

Mae Medrwn Môn am ddefnyddio'r platfform yma i gefnogi pobl, grwpiau a mudiadau ym Môn i weithio tuag at y Nodau Llesiant a ddifinir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

- Môn lewyrchus
- Môn gydnerth
- Môn iachach
- Môn sy'n fwy cyfartal
- Môn o gymunedau cydlynus
- Môn â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Môn sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

***4. Llywodraethu***

Mae Medrwn Môn yn gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth o blith mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol lleol. Mae aelodaeth o Medrwn Môn yn agored i holl fudiadau/grwpiau trydydd sector, sydd yn gweithio neu wedi'u lleoli ym Môn. Mae gan Medrwn Môn dros 600 o gysylltiadau gwirfoddol a chymunedol ar ei gronfa ddata gyda dros 300 yn ei aelodaeth.

Mae gan Medrwn Môn 9 cyfarwyddwr ymddiriedolwyr o'n haelodaeth o'r sector gwirfoddol lleol gyda chyflenwad o staff amser llawn a rhan-amser. Mae llywodraethiant y corff yn cael ei gefnogi gan Bwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol, sy'n is-grwp o'r Bwrdd Rheoli.

Mae Medrwn Môn yn un o 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) yng Nghymru a dechreuodd weithredu yn 2001. Mae Medrwn Môn yn elusen gofrestredig (1088828) ac yn gwmni cyfyngedig (4197934).

Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn cael eu hethol am gyfnod o bedair mlynedd gyda thraean o'r aelodaeth yn rhoi'r gorau i'w swydd bob blwyddyn, sydd wedyn yn gymwys i sefyll i'w hailethol.

Adolygwyd trefniadau'r bartneriaeth cenedlaethol, Cefnogi Trydydd Sector Cymru, yn ystod 2017-18 a 2018-19. 2018/19 oedd ail flwyddyn rhaglen newid uchelgeisiol Cefnogi Trydydd Sector Cymru a oedd yn canolbwyntio ar wella'r effaith a gawn fel partneriaeth wrth gefnogi'r trydydd sector yng Nghymru i ffynnu.

Gwnaethom ganolbwyntio ar adolygu a gwella tri maes:

- sut rydym yn gweithio fel partneriaeth cenedlaethol
- ein cynnig digidol
- ein fframwaith monitro ac effaith i yrru cylch Cynllunio> Gwneud> Asesu> Adolygu i sicrhau ein bod yn gwrando ac yn gwella ein gwasanaethau yn barhaus.

Yn ystod 2019-20 ac ymlaen mae cyfle i rhoi ar waith y trefniadau newydd yma yn lleol. Yn Ionawr 2020, er mwyn gallu sicrhau bod Medrwn Môn yn gallu ymateb i'r trefniadau newydd, mae Bwrdd Rheoli Medrwn Môn wedi adnabod yr angen i adolygu trefniadau Medrwn Môn.

Bwriedir dilyn meysydd ansawdd achrediad 'Elusen Ymddiriadwy' er mwyn cynorthwyo Medrwn Môn yn y broses o *Adolygu ac Adnewyddu*. Galluogir hyn i ni ganolbwyntio ar gyflawni'r dasg allweddol o sicrhau fod Medrwn Môn yn 'addas i'r pwrpas' wrth i ni fynd ati i helpu'r sector gwirfoddol ym Môn i ffynnu mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd anodd yn ogystal â chyfrannu at ddeddfau bwysig yng Nghymru. Byddem yn edrych ar strwythur llywodraethu'r mudiad, i sicrhau ein bod yn defnyddio'r strwythur llywodraethol mwyaf addas i anghenion Medrwn Môn, nawr ac yn y dyfodol. Yn ogystal rydym am recriwtio sawl ymddiriedolwr newydd at y Bwrdd Rheoli, i helpu i arwain y mudiad tua'r dyfodol. Bydd polisïau, gweithdrefnau a systemau yn cael eu creu, hadolygu neu adnewyddu.
Bydd Gweithgor yn cael ei greu, gyda nifer o is-grwpiau. Bydd rhai o'r is-grwpiau yma yn rhai tasg a gorffen, yn cael eu sefydlu i gwblhau gweithdrefn neu system benodol; bydd rhai eraill yn fwy sefydlog a hir dymor. Bydd gwahoddiad i staff fynychu a chyfrannu i'r grwpiau hyn a bydd eich mewnbwn yn hanfodol i sicrhau bod cynlluniau Medrwn Môn yn cael eu cyflawni. Rydym yn awyddus i gynnwys ein aelodau a'r sector gwirfoddol ehangach, yn ogystal â chlwyed gan ein partneriaid a rhanddaliaid. Rydym yn edrych ymlaen at wynebu'r her yma gyda'n gilydd.

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Adolygiad llywodraethu a fydd yn gyfle i fyfyrio ar drefniadau llywodraethu'r elusen.
- Cynnal adolygiad llywodraethu yn flynyddol ar eu pennau eu hunain a gyda chymorth allanol bob 3 i 5 mlynedd.
- Mesur effeithiolrwydd gwaith y bwrdd - er enghraifft, cyfarfodydd, dulliau recriwtio ymddiriedolwyr neu raglen sefydlu ymddiriedolwyr.
- adolygu trefniadau llywodraethu ffurfiol yr elusen - er enghraifft, maint y bwrdd, dulliau etholiadol neu strwythurau is-bwyllgorau.
- Holiadur hunan-asesu i aelodau'r bwrdd - y canlyniadau'n cael eu coladu ac yn sail i adroddiad a thrafodaeth.
- Adolygiad o ddogfennaeth, megis codau ymddygiad, cylch gorchwyl neu bolisïau bwrdd
- Ymgynghoriad ffurfiol gydag ymddiriedolwyr a rhanddeiliaid - er enghraifft, trwy gynnal cyfweliadau neu gyfarfodydd grwpiau ffocws
- sefydlu gweithgor sy'n cynnwys cymysgedd o ymddiriedolwyr a staff a gallai hefyd gynnwys cynghorydd allanol i ddarparu mewnbwn a chymorth arbenigol.
- cynnal adolygiad llywodraethu fel rhan o system ansawdd. Mantais hyn yw cysylltu adolygiad llywodraethu ag adolygiad ehangach o ansawdd systemau a ffyrdd o weithio elusen.

***5. Cynllunio***

Mae'r Bwrdd Rheoli, gydag 9 ymddiriedolwr, yn gyfrifol am gynllunio gwaith y mudiad. Mae'n cynlluniau yn cyd-fynd hefo'r 4 piler gwaith sydd wedi'u mabwysiadu drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Yn ogystal â'r Bwrdd Rheoli, mae'r mecanweithiau canlynol yn cefnogi cyfranogiad ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr, aelodau, partneriaid a rhanddaliaid wrth ddatblygu gweithredoedd Medrwn Môn:

- Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol
- Fforwm Staff
- Holiadur ansawdd i'r Sector
- Rhwydwaith Trydydd Sector

Fel corff aelodaeth, ein haelodau sy'n ffurfio pwy ydym ni, yn gosod ein cyfeiriad ac yn ein dal i gyfrif. Rydym yn cynllunio ein gwasanaethau gan ystyried anghenion a nodwyd. Mae proses gynllunio yn cynnwys pob lefel o'r mudiad. Mae staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl rydym yn eu cefnogi yn helpu i lunio ein cynlluniau a sut maent yn cael eu gweithredu.

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Defnyddio dull Cynllunio> Gwneud> Asesu> Adolygu i sicrhau ein bod yn gwrando ac yn gwella ein gwasanaethau yn barhaus
- Gweithredu'r fframwaith mesur effaith, arolwg effaith ar y cyd a grwpiau ffocws
- olrhain sut rydym yn gwneud er mwyn gallu bod yn siŵr bod ein gwasanaethau'n ddefnyddiol drwy holiadur i randdeiliaid a phartneriaid
- ystyried effaith ehangach yr hyn rydym yn ei wneud, megis materion ynni ac amgylcheddol
- Gwella rheolaeth risg oherwydd bydd risgiau tymor hir yn gallu effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau Medrwn Môn ond hefyd ar y cymunedau yr ydym yn eu galluogi i wella. Gallwn ddefnyddio'r Marc Elusennau Ddibynadwy i fframio'r risgiau y gallai Medrwn Môn wynebu yn y tymor byr, canolig a hir, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n dda.

***6. Arweinyddiaeth a Rheolaeth***

Mae Medrwn Môn yn cael ei arwain gan y Cadeirydd gyda chefnogaeth y Bwrdd Rheoli a staff. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd, am reoli'r Prif Swyddog ac i gynrychioli'r mudiad yn allanol. Mae'r Is-gadeirydd yn gweithredu i gefnogi'r cadeirydd neu yn dirprwyo pan nad yw'r cadeirydd ar gael. Mae'r Trysorydd yn arwain ar faterion ariannol gan sicrhau bod gan y Bwrdd Rheoli wybodaeth ariannol briodol.

Mae'r Prif Swyddog yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Cwmni ac yn gyfrifol am sicrhau fod Medrwn Môn yn cydymffurfio â chyfraith cwmnïau, er enghraifft, ffeilio ffurflen flynyddol a chynghori ar unrhyw newid cyfarwyddwyr.

Gwneir penderfyniadau yn unol â dogfen lywodraethol Medrwn Môn ac fe'u gwneir ar y cyd gan y Bwrdd, nid gan ymddiriedolwyr unigol.

Rhoddir yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar ymddiriedolwyr am eu rôl a'r mudiad ac maent yn deall yr hyn y mae'n ei wneud a sut mae'n darparu gwasanaethau fel y gallant arwain Medrwn Môn yn dda.

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Aelodau Bwrdd Rheoli yn meddu ar y sgiliau a'r profiad cywir

- Aelodau Bwrdd Rheoli yn dod â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar Medrwn Môn
- Aelodau Bwrdd Rheoli hefo ystod o gefndiroedd a phrofiadau
- Aelodau Bwrdd Rheoli wedi'u hyfforddi mewn unrhyw sgiliau newydd sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r dasg yn dda

***7. Gwasanaeth defnyddiwr-ganolog***

Mae Medrwn Môn yn cynnwys ein haelodau, bod yn agored a chynhwysol er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog i'n gwaith.

Fe wnaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) edrych ar ystod eang o dystiolaeth i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau a chyfleoedd o'n blaenau. Cafwyd sgyrsiau gyda staff, ymddiriedolwyr, aelodau a'n partneriaid ehangach ledled Cymru a thu hwnt.

Adolygwyd ein cynnig digidol, a arweiniodd at gomisiynu tair system newydd yn genedlaethol:

- Cronfa ddata Rheoli Perthynas Cwsmer (CRM) a rennir i eistedd yn ganolog i'n trawsnewidiad digidol.
- Llwyfan Gwirfoddoli newydd i helpu gwirfoddolwyr i ddod o hyd i gyfleoedd, sefydliadau i ddod o hyd i wirfoddolwyr ac, am y tro cyntaf, i ddarparu offer rheoli gwirfoddolwyr;
- darganfyddwr cyllid ar-lein gyda ffocws Cymru sy'n darparu, am y tro cyntaf, gronfa ddata cyfleoedd cyllido bwrpasol ar gyfer Cymru.

Dyluniwyd fframwaith mesur effaith newydd a fframwaith Adrodd Dangosyddion perfformiad allweddol â ffocws; arolwg effaith o'r grwpiau rydyn ni'n eu cefnogi; grwpiau ffocws ac astudiaethau achos.

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Trefniadau a systemau newydd yn cael eu gweithredu yn lleol
- Parhau i ddefnyddio mesurydd Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (SROI)
- Parhau i ddefnyddio 'Beth sy'n Bwysig' fel testun sgwrs

***8. Rheoli Pobl***

Mae Medrwn Môn yn adnabod fod gweithwyr a gwirfoddolwyr angen gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt ac yn deall sut mae eu hamcanion unigol yn cyd-fynd ag amcanion Medrwn Môn. Mae amser yn cael ei roi i reoli perfformiad ac bod pobl yn deall y broses berfformiad. Mae perfformiad Medrwn Môn yn cael ei fesur a'i asesu'n rheolaidd yn erbyn amcanion.

Mae Medrwn Môn yn adnabod bod angen gwerthuso perfformiad ar gyfnodau amrywiol a bod yn agored, hyblyg a chydlynol. Mae perfformiad yn cael ei fonitro a'i werthuso ar draws y mudiad yn erbyn cynlluniau, nodau ac amcanion drwy drefniadau rheoli.

Mae'r mecanweithiau a'r ymyriadau canlynol ar waith yn Medrwn Môn ac yn arddangos ymrwymiad i weithredu'r dulliau uchod:

- Bwrdd Rheoli
- Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol

- Cyfarfodydd Tim
- Cyfarfodydd Prosiect
- Fframwaith Polisi a gweithdrefnau
- Fforwm Staff
- Adolygiadau Blynyddol
- Cyfarfodydd Cefnogi/Goruchwylio
- Cynlluniau Gwaith Unigol
- Cynlluniau Prosiect/Tim
- Fframwaith Monitro ac Adrodd Canlyniadau
- System Rheoli Perthynas Cwsmer

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Sicrhau bod llywodraethu, systemau, diwylliant a chefnogaeth yn darparu llwyfan ar gyfer cyflawniad a pherfformiad
- Rhaglen hyfforddi corfforaethol
- Grwp Ansawdd
- Grwpiau Thematig
- Diwrnod Corfforaethol
- Holiadur staff

***9. Dysgu a Datblygu***

Mae Medrwn Môn yn adnabod pwysigrwydd datblygu'r gweithlu i gefnogi cyflawni nodau ac amcanion strategol y mudiad. Yn ganolog i ddull Medrwn Môn mae pwyslais ar adeiladu gallu. Mae Medrwn Môn yn cadw ffocws ar gefnogi gweithwyr i ddatblygu eu galluoedd, gan hwyluso datblygu eu potensial llawn i sicrhau bod gan y mudiad y bobl iawn ar yr adeg iawn, ar gyfer y rolau cywir.

Mae'r mecanweithiau a'r ymyriadau canlynol ar waith yn Medrwn Môn ac yn arddangos ymrwymiad i weithredu'r dulliau uchod:

- Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol
- Polisi Hyfforddi a Datblygu
- Gwasanaeth Adnoddau Dynol
- Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch
- Rhaglenni Anwytho ar gyfer Staff ac Ymddiriedolwyr
- Archwiliad Sgiliau
- Rhaglen Hyfforddiant Corfforaethol

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu yn unol ag amcanion Medrwn Môn ac yn galluogi gweithwyr i gyflawni eu potensial llawn.
- Rhoi cyfle a chefnogaeth i weithwyr i roi sgiliau a gwybodaeth newydd ar waith.
- Cynllunio ein adnoddau mewn ffordd paratoadol i gefnogi amcanion Medrwn Môn.
- Cynnal Grwp hyfforddi a Grwp Ansawdd
- Cyfranogiad Ymddiriedolwyr a Staff mewn Grwpiau Thematig
- Arolygon Staff

***10. Rheoli Arian a Rheoli Adnoddau***

Wrth i'r amgylchedd gweithredol barhau i gael ei nodweddu gan newid ac lleihad mewn adnoddau, bydd angen sicrhau trywydd gweithio cadarn i ymateb i’r her. Ni all

gwasanaethau redeg yn dda heb ddigon o arian. Wrth gynllunio gweithgareddau Medrwn Môn ar gyfer y dyfodol, rhoddir ystyriaeth i faint y bydd yn ei gostio. Mae gan Medrwn Môn reolaethau i gadw golwg ar ei arian a sut mae'n cael ei wario a'i gynllunio. Mae'r Bwrdd, a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol yn wybodus am gyllid y mudiad ac maent yn cymeradwyo cynlluniau gwariant cyn symud ymlaen.

Mae Medrwn Môn yn cynllunio'n cyllid ar gyfer y tymor hir yn ogystal â'r tymor byr. Dim ond am gyfnodau penodol o amser y mae arian ar gael, ac mae'n gyfyngedig, sy'n golygu gellir ei wario ar rai pethau yn unig.

Mae'r mecanweithiau a'r ymyriadau canlynol ar waith yn Medrwn Môn ac yn arddangos ymrwymiad i weithredu'r dulliau uchod:

- Pwyllgor cyllid ac adnoddau Dynol gan gynnwys adolygu'r gofrestr risg
- Adroddiadau cyllidol i'r Bwrdd Rheoli
- Adolygu a datblygu Gweithdrefnau Cyllido

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Cyflawni sefyllfa o warged wedi'i ategu gan gronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu arfer gorau'r Comisiwn Elusennau
- Mynd ar drywydd cyfleoedd cynhyrchu incwm lle mae bwlch yn y ddarpariaeth sydd wedi'i selio ar dystiolaeth
- Adlewyrchu cynaliadwyedd fel y diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Annog arloesi a meithrin arloesedd a gweithredu'n gyflym mewn ymateb i syniadau a chyfleoedd newydd
- Craffu cadwyn cyflenwi Medrwn Môn i sicrhau fod y mudiad yn gweithredu'n llyfn
- systemau wedi'u seilio ar Rheolaethau Ariannol mewnol Elusennau gan y Comisiwn Elusennau

***11. Cyfathrebu allanol***

Rydym wedi gweithio i sefydlu ffyrdd newydd o weithio ac ymgysylltu â'n haelodau a'r sector a bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2019-20 a thu hwnt. Mae Compact Ynys Môn, trwy Bwyllgor Cyswllt Gwirfoddol y Cyngor Sir, yn parhau i sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cael deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol ac wedi arwain at gychwyn adolygu'r Compact a'r Cod Ymarfer Cyllido yn ystod 2019-20. Mae ein gwaith partneriaeth â staff y Cyngor Sir trwy ein Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd hefyd wedi golygu bod y sector wedi'i gynnwys ac yn ymwneud â datblygu strategaethau a dylunio ac ymateb i ymgynghoriadau. Mae'r gwaith o 'Cynllunio Lle' yn cael ei ddatblygu a bydd cyfle i gael deialog ddwy-ffordd drwy'r prosesau yma. Rydym yn dilyn Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd â'n Aelodaeth.

Neilltuodd staff amser i gynllunio gwefan newydd, sydd yn fwy hygyrch a haws i' w ddefnyddio.

Mae'r mecanweithiau a'r ymyriadau canlynol ar waith yn Medrwn Môn ac yn arddangos ymrwymiad i weithredu'r dulliau uchod:

- Dan Do Môn (newyddlen chwarterol)
- Rhwydwaith Trydydd Sector
- Taflenni gwybodaeth

- Uned Symudol
- Safle we

Trwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru, mae Medrwn Môn wedi cyflwyno:

- Offer digidol newydd ar gyfer recriwtio, rheoli a hyrwyddo gwirfoddolwyr
- Lansio llwyfannau digidol infoengine.cymru a dewis.cymru
- Lansio platfform digidol funding.cymru
- System Rheoli Perthynas Cwsmer fewnol newydd
- Dull newydd o Fesur Effaith

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Cynnyddu defnydd o gynnwys digidol a chyfryngau cymdeithasol
- Hyrwyddo beth mae Medrwn Môn yn ei wneud

***12. Gweithio gydag eraill***

Mae Medrwn Môn yn adnabod gall mudiadau gael mwy o effaith wrth weithio gyda'i gilydd. Mewn cyd-destun strategol, mae newid ac ansicrwydd yn parhau i ddiffinio’r tirlun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae Medrwn Môn wedi defnyddio dulliau arloesol i wneud y mwyaf o gyfleoedd ac rydym yn gwneud cynnydd pellach tuag at ein nod mewn amgylchedd sy'n brin o adnoddau.

Mae gan Medrwn Môn brofiad o weithio mewn partneriaeth yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Dechreuon ni wrando'n weithredol ar leisiau pobl a chymunedau Ynys Môn yn 2013 trwy ein prosiect Lleisiau Lleol. Esblygodd y prosiect a sicrhawyd cyllid pellach i fapio lleisiau pobl Ynys Môn i helpu i lunio gwasanaethau lleol. Ar yr un pryd, cychwynnodd yr ymgyrch Presgripsiwn Cymdeithasol yn genedlaethol a phenderfynwyd trafod gyda'n partneriaid, Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chlwstwr Meddygon Teulu Ynys Môn ynghylch dulliau a ffyrdd o gydlynu'r gwaith. O ganlyniad, sicrhaodd Medrwn Môn gronfa gyfun, sef pan mae cyrff cyhoeddus fel y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir yn gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar lefelau cyllid a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Yn ystod 2018-19, cytunwyd ar gytundeb rhwng y partneriaid yn amlinellu’r sgôp, trefniadau monitro a gwerthuso yn ogystal â llywodraethu, atebolrwydd a strwythurau gwneud penderfyniadau’r gyllideb gyfun.

Gyda llwyddiant sefydlu'r bartneriaeth, rydym bellach gyda thîm ar waith i ddarparu ein model Adeiladu Cymunedau, sy'n deillio o'n cynlluniau Lleisiau Lleol, Linc Cymunedol Môn, Cydlynu Asedau Lleol a Phresgreibio Cymdeithasol.

Ar Ynys Môn, rydym yn ffodus bod gennym berthynas waith dda gyda'r Cyngor Sir, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Nid damwain yw cael perthynas dda â’n partneriaid, ac rydym yn parhau i ymdrechu i harneisio gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi a chryfhau gweithred gwirfoddol.

Mae sicrhau bod y sector gwirfoddol ehangach yn cymryd rhan ac yn cael cyfleoedd i ymgysylltu, dylanwadu ar bolisi a darparu gwasanaeth yn rhan allweddol o'n gwaith. Wrth i Gynllunio Lle sefydlu, hyderwn bydd gwaith partneriaethol ar draws sectorau ffynnu.

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Cytuno set o werthoedd a rennir o'r dechrau
- Penderfynu ar yr ymrwymiad (amser ac arian) gan bob partner
- Nodi rolau a chyfrifoldebau pob partner
- Sefydlu pwy fydd yn arwain y bartneriaeth, egluro pwy fydd yn cael ei gydnabod a sut
- Gosod mewn cytundeb neu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, os yn briodol

***13. Asesu Canlyniadau ac Effaith***

Mae pob Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) yng Nghymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wedi bod yn gweithio ar ddull mwy cydweithredol o gefnogi mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

Roedd 2018-19 yn flwyddyn o drawsnewid ar gyfer Cefnogi Trydydd Sector Cymru fel partneriaeth, ond hefyd i Medrwn Môn fel mudiad, wrth i systemau a phrosesau newydd gael eu profi, tra'n parhau i redeg fel arfer. Bydd y systemau a'r prosesau hyn yn parhau i gael eu hymgorffori trwy 2019-20 a thu hwnt.

Rôl rheoli perfformiad yw galluogi olrhain, dadansoddi a chyfleu cynnydd trwy adrodd. Addaswyd offer a fframweithiau i fesur i ba raddau y mae hyn yn digwydd drwy waith Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Mae datblygiadau hefo'r mesurydd Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiau (Social Return on Investment SROI) hefyd yn cymryd lle, wrth i ni hyfforddi 2 aelod o staff i fesur rhai o'n cynlluniau.

Fel aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, bydd gan Medrwn Môn weithdrefnau monitro a gwerthuso mwy ystyrlon a chadarn i'n helpu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau cymorth o ansawdd i grwpiau ac unigolion ledled Ynys Môn. Byddwn yn cynnal arolwg yn ceisio barn ein haelodau a'r sector ehangach ar ein heffaith ac yn holi barn ar ba gefnogaeth bellach fyddai ei angen ar grwpiau neu fudiadau gan Medrwn Môn.

Mae Medrwn Môn yn adolygu gwasanaethau i ddarganfod a yw ein nodau yn cael eu cyflawni. Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer casglu, dadansoddi, gwirio ac adrodd ar wybodaeth. Mae staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi i ddeall sut mae hyn yn gweithio. Rydym yn rhoi adborth wrth y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Medrwn Môn am yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn gofalu am eu preifatrwydd.

Mae targedau'n cael eu gosod yn flynyddol ac yn mesur yr hyn rydyn ni'n ei wneud a faint o bobl sy'n cael eu cyrraedd. Mae canlyniadau ar gyfer gwaith Medrwn Môn hefyd yn cael eu datblygu ac rydym yn edrych ar ba wahaniaeth sy'n cael ei wneud.

Mecanweithiau posibl i'w defnyddio er mwyn gwella effaith Medrwn Môn ymhellach:

- Defnyddio mesurydd Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau
- Sicrhau fod systemau asesu canlyniadau ac effaith yn ran annatod o

| |
|---|
| fecanweithiau monitor. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Medrwn Môn 2018-19 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# MEDRWN MÔN

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-19



Cefnogi gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol ar Ynys Môn

MEDRWN MÔN

# MEDRWN MÔN

01248 724944

post@medrwnmon.org

www.medrwnmon.org

@MedrwnMon

@MedrwnMon

Cynnwys: Tudalen:

| | |
|---|---|
| Amdanom Ni | 3 |
| Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Swyddog | 4-5 |
| Bwrdd Rheoli a Staff | 6-7 |
| Ein Gwaith: | |
| Gwirfoddoli a Dinasyddiaeth | 8-10 |
| Llywodraethu'n Dda | 11-13 |
| Cyllido Cynaliadwy | 14-16 |
| Ymgysylltu a Dylanwadu | 17-19 |
| Y Flwyddyn mewn Lluniau | 20-22 |
| Cynlluniau i'r Dyfodol | 23 |
| Crynodeb Ariannol | 24 |

# Medrwn Môn

Ein Nod
Nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a chymunedol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn a blaenllaw i ddatblygu potential yr Ynys.

Mae Medrwn Môn yn gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth o blith mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol lleol.

Rydym yn ran o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sy'n bartneriaeth rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Rydym yn rhannu'r nod o alluogi'r sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr ledled Cymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau rwan ac ar gyfer y dyfodol. Cyllidir Cefnogi Trydydd Sector Cymru drwy Lywodraeth Cymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i: thirdsectorsupport.wales/cy/

Mae ein gwaith yn ffocysu'n fras ar y themâu cyffredinol yma:

- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- Dysgu a Datblygu
- Rhwydweithio, ymgysylltu a chyfathrebu
- Siapio, dylanwadu ac adeiladu ar gyfalaf cymdeithasol a gwydnwch y sector
- Codi proffil y sector

Ein pedwar piler o waith yw:

*Gwirfoddolwyr a Dinasyddiaeth*
Galluogi pobl i fod yn rhan o, ac yn weithredol yn eu cymunedau, drwy wirfoddoli a bod yn ddinasyddion gweithredol

*Llywodraethu'n Dda*
Cefnogi ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli i ragori wrth lywodraethu eu mudiadau a chyflawni canlyniadau o ansawdd

*Cyllido Cynaliadwy*
Cefnogi grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol i ddod yn fwy cysylltiedig a gwybodus i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol

*Ymgysylltu a Dylanwadu*
Galluogi llais y sector i ddylanwadu ar bolisi ac annog ymgysylltu gweithredol ac effeithiol rhwng cymunedau, y sector gwirfoddol a chyrff cyhoeddus

Mae Medrwn Môn yn rhedeg prosiectau eraill hefyd, sy'n cefnogi ein gwaith craidd, sef:

- Panel Dinasyddion
- Cyngor Ieuenctid Llais Ni
- #MiWnaf Gweithred Cymdeithasol
- Presgreibio Cymdeithasol Môn
    - Linc Cymunedol Môn
    - Cydlynu Asedau Lleol
- Cynllunio Lle/Adeiladu Cymunedau

Rydym yn gweithio gyda phobl, gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a mudiadau'r sector gwirfoddol i adnabod a mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Er mwyn cyflawni 'r nod rydym yn ei rannu, rydym yn cydweithio â phartneriaid allweddol eraill ar draws y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus, busnes, ymchwil a chyllidwyr.

# Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Swyddog

Ym Medrwn Môn, gweithio gyda phobl a chymunedau a gwrando arnynt yw sylfaen ein gwaith. Yn ein Adroddiad Blynyddol 2018-19 rydym yn rhannu gyda chi sut mae ein gwaith yn helpu pobl, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol i chwarae rhan lawn a blaenllaw i ddatblygu potensial yr Ynys.

Mae 2018-19, unwaith eto, wedi bod yn gyfnod anodd a heriol i Medrwn Môn a'r sector cyfan. Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysurach nag erioed, yn flwyddyn heriol ond gwerth chweil, wrth i ni fel mudiad ymateb i'r heriau o gefnogi'r sector i geisio cau bylchau mewn gwasanaethau ar adeg pan fo cyfleoedd cyllido yn brin a phan fod cynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae'r sector gwirfoddol yn ei gyfanrwydd yn parhau i dderbyn llai o gefnogaeth ariannol gan y sector cyhoeddus ac rydym wedi sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol ar gamau strategol ar y cyd â'r Sector Gwirfoddol a Chyhoeddus i gydnabod ein cryfderau a'n gwendidau cyfun ac ymdrechu i osgoi dyblygu gweithredoedd ac adnabod dulliau eraill i gyflawni ein hymdrechion.

Mae pob Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) yng Nghymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wedi bod yn gweithio ar ddull mwy cydweithredol o gefnogi mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Rydym yn rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, (TSSW) sy'n bartneriaeth rhwng y CGSau a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Rydym yn rhannu y nod o alluogi'r sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr ledled Cymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, rwan ac yn y dyfodol. Ariennir Cefnogi Trydydd Sector Cymru trwy Lywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.thirdsectorsupport.wales/cy/

Roedd 2018-19 yn flwyddyn o drawsnewid ar gyfer Cefnogi Trydydd Sector Cymru fel partneriaeth, ond hefyd i Medrwn Môn fel mudiad, wrth i systemau a phrosesau newydd gael eu profi, tra'n parhau i redeg fel arfer. Bydd y systemau a'r prosesau hyn yn parhau i gael eu hymgorffori trwy 2019-20 a thu hwnt.

Trwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru, cyflwynodd Medrwn Môn:

- Offer digidol newydd ar gyfer recriwtio, rheoli a hyrwyddo gwirfoddolwyr
- Lansio llwyfannau digidol infoengine.cymru a dewis.cymru
- Lansio platfform digidol funding.cymru
- System Rheoli Perthynas Cwsmer fewnol newydd
- Dull newydd o Fesur Effaith

Mae ein haelodau yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau Medrwn Môn. Partneriaeth, cydweithredu ac ymglymiad ein haelodau a'r sector ehangach yw sylfaen sut mae staff Medrwn Môn yn cwrdd â thargedau heriol ac uchelgeisiol.

Fel aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, bydd gan Medrwn Môn weithdrefnau monitro a gwerthuso mwy ystyrlon a chadarn i'n helpu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau cymorth o ansawdd i grwpiau ac unigolion ledled Ynys Môn. Byddwn yn cynnal arolwg yn ceisio barn ein haelodau a'r sector ehangach ar ein heffaith ac yn holi'ch barn ar ba gefnogaeth bellach fyddai ei angen ar eich grwp neu fudiad gan Medrwn Môn. Rydyn ni eisiau clywed gennych chi!

Cymerwch amser i gwblhau ein harolwg effaith ar-lein os ydych wedi derbyn unrhyw fath o gefnogaeth gan ein swyddogion - fe welwch y ddolen ar y mwyafrif o'n gohebiaeth, neu gallwn anfon y ddolen ar wahân os dymunwch. Mae'r arolwg yn anhysbys a bydd yr holl ymatebion yn cael eu hadrodd i Fwrdd Medrwn Môn.

Fel y CGS ar gyfer Ynys Môn, edrychwn ymlaen at weithio'n agosach gyda'n partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu eich anghenion mor effeithiol â phosibl.
Mewn cyd-destun strategol, mae newid ac ansicrwydd yn parhau i ddiffinio 2018-19. Mae Medrwn Môn wedi defnyddio dulliau arloesol i wneud y mwyaf o gyfleoedd ac rydym yn gwneud cynnydd pellach tuag at ein nod mewn amgylchedd sy'n brin o adnoddau.

# Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Swyddog

Dechreuon ni wrando'n weithredol ar leisiau pobl a chymunedau Ynys Môn yn 2013 trwy ein prosiect Lleisiau Lleol. Esblygodd y prosiect a sicrhawyd cyllid pellach i fapio lleisiau pobl Ynys Môn i helpu i lunio gwasanaethau lleol. Ar yr un pryd, cychwynnodd yr ymgyrch Presgripsiwn Cymdeithasol yn genedlaethol a phenderfynwyd trafod gyda'n partneriaid, Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chlwstwr Meddygon Teulu Ynys Môn ynghylch dulliau a ffyrdd o gydlynu'r gwaith. O ganlyniad, sicrhaodd Medrwn Môn gronfa gyfun, sef pan mae cyrff cyhoeddus fel y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir yn gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar lefelau cyllid a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Yn ystod 2018-19, cytunwyd ar gytundeb rhwng y partneriaid yn amlinellu'r sgôp, trefniadau monitro a gwerthuso yn ogystal â llywodraethu, atebolrwydd a strwythurau gwneud penderfyniadau'r gyllideb gyfun.

Gyda llwyddiant sefydlu'r bartneriaeth, rydym bellach gyda thîm ar waith i ddarparu ein model Adeiladu Cymunedau, sy'n deillio o'n cynlluniau Lleisiau Lleol, Linc Cymunedol Môn, Cydlynu Asedau Lleol a Phresgreibio Cymdeithasol.

Ar Ynys Môn, rydym yn ffodus bod gennym berthynas waith dda gyda'r Cyngor Sir, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Ychydig iawn o'n gwaith sy'n cael ei wneud gydag un person, mudiad neu sector yn unig. Nid damwain yw cael perthynas dda â'n partneriaid, ac rydym yn parhau i ymdrechu i harneisio gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi a chryfhau gweithred gwirfoddol trwy ein hymglymiad â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lle bydd y ffocws nawr yn newid o ddatblygu'r Cynllun Llesiant i'w gyflawni, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae sicrhau bod y sector gwirfoddol ehangach yn cymryd rhan ac yn cael cyfleoedd i ymgysylltu, dylanwadu ar bolisi a darparu gwasanaeth yn rhan allweddol o'n gwaith.

Rydym wedi gweithio i sefydlu ffyrdd newydd o weithio ac ymgysylltu â'n haelodau a'r sector a bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2019-20 a thu hwnt. Mae Compact Ynys Môn, trwy Bwyllgor Cyswllt Gwirfoddol y Cyngor Sir, yn parhau i sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cael deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol ac wedi arwain at gychwyn adolygu'r Compact a'r Cod Ymarfer Cyllido yn ystod 2019-20. Mae ein gwaith partneriaeth â staff y Cyngor Sir trwy ein Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd hefyd wedi golygu bod y sector wedi'i gynnwys ac yn ymwneud â datblygu strategaethau a dylunio ac ymateb i ymgynghoriadau.

Rhowch wybod i ni os oes cyfleoedd yr hoffai'ch mudiad gymryd rhan ynddynt neu os oes angen unrhyw gefnogaeth arnoch yn eich mudiad. P'un a oes angen help arnoch gyda pholisi, arfer da, cyllid neu dim ond eisiau cael sgwrs am sut mae pethau'n mynd neu eisiau gwybod mwy am ein gwaith, edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

Mae gennym swyddi gwag ar ein Bwrdd Rheoli. A fyddai gennych ddiddordeb mewn dod yn ymddiriedolwr Medrwn Môn? Hoffem ddenu pobl at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr o bob rhan o'r Ynys sydd ag ystod eang o gefndiroedd ond yn enwedig y rhai sydd â phrofiad cynllunio busnes / strategol. Mae arnom angen pobl sydd eisiau gweld y Sector Gwirfoddol yn tyfu mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol, a fydd yn rhoi eu hamser, eu gwybodaeth a'u profiad i gefnogi gwaith y mudiad.

Hoffem ddiolch i'n holl gydweithwyr yn y sector gwirfoddol am eu cefnogaeth barhaus ac i Ymddiriedolwyr, Staff a Gwirfoddolwyr Medrwn Môn am eu hymrwymiad a'r cyfraniad y maent wedi'i wneud i gyflawniadau Medrwn Môn yn ystod 2018-19.

Islwyn Humphreys, Cadeirydd
Sian Purcell, Prif Swyddog

# Bwrdd Rheoli a Staff

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | |
| Islwyn Humphreys | Samariaid Gogledd Orllewin Cymru |
| Is-Gadeirydd: | |
| Andrew Mark Hughes | Malltraeth Ymlaen |
| Trysorydd: | |
| Elfyn Hughes | Neuadd Bentref Penysarn |
| Eileen M Clarke | Marchogaeth i'r Anabl Ynys Môn (RDA) |
| William Hadfield | Cynllun Tro Da Benllech a'r Cylch |
| Lyn Môn Owen Hughes | Barnardos Ynys Môn |
| John Wyn Jones | Ynys Môn Access (o Ionawr 2018) |
| Selwyn Williams | Canolfan Cynghori Ynys Môn |
| Eva Vazque-Garcia | RSPB Cymru (o Ionawr 2018) |
| Cyfetholedig: | |
| Dilys Shaw | Tai Chi Llangefni |
| Aelodau Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol: | |
| Islwyn Humphreys | Samariaid Gogledd Orllewin Cymru |
| Andrew Mark Hughes | Malltraeth Ymlaen |
| Elfyn Hughes | Neuadd Bentref Penysarn |
| Aelodau Staff Medrwn Môn: | |
| Siân C Purcell | Prif Swyddog |
| Derlwyn R Hughes | Swyddog Datblygu Gwybodaeth a Hyfforddiant |
| Linda Jones | Swyddog Gweinyddol |
| Rhian Medi | Swyddog Cyswllt Gwirfoddoli |
| Bethan Lloyd Jukes | Swyddog Cefnogi Linc Cymunedol Môn /Swyddog Panel Dinasyddion Lleol |
| Lyndsey Campbell Williams | Rheolwr Prosiect Lleisiau Lleol |
| Sheree Ellingworth | Cydlynydd Asedau Lleol |
| Rhian Thomas | Cydlynydd Asedau Lleol (o 23/07/18 – 31/12/18) |
| James Garden | Cydlynydd Asedau Lleol (o 01/08/18) |
| Helen Woodcock | Cydlynydd Asedau Lleol (o 06/08/18 – 09/01/19) |
| Seiriol Geraint Edwards | Swyddog Llesiant Cymunedol a'r Trydydd Sector (o 13/08/18 |
| Eirian Wyn Williams | Cydlynydd Asedau Lleol (o 03/09/18 – 26/11/18) |
| Sian Eleri Morgan | Swyddog Datblygu Linc Cymunedol Môn (from 01/10/18) |
| Ceren Haf Hughes | Cydlynydd Asedau Lleol (o 04/03/19) |
| Nia Lloyd-Roberts | Cydlynydd Asedau Lleol (o 05/03/19) |

Mae gan Medrwn Môn 9 cyfarwyddwr ymddiriedolwyr o'n haelodaeth o'r sector gwirfoddol lleol gyda chyflenwad o staff amser llawn a rhan-amser.
Mae gan Medrwn Môn dros 600 o gysylltiadau gwirfoddol a chymunedol ar ei gronfa ddata gyda dros 300 yn ei aelodaeth.
Mae Medrwn Môn yn un o 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) yng Nghymru a dechreuodd weithredu yn 2001.
Mae Medrwn Môn yn elusen gofrestredig (1088828) ac yn gwmni cyfyngedig (4197934).

# Medrwn Môn

Hoffai Medrwn Môn ddiolch yn arbennig i'n holl wirfoddolwyr a chyfranogwyr sy'n cymryd rhan ac yn rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim er budd pobl, cymunedau, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol Ynys Môn.

Hoffem hefyd ddiolch i aelodau Medrwn Môn am gymryd rhan yn ein gweithgareddau a'n digwyddiadau ac am fod yn ffynhonnell o anogaeth a dyfalbarhad.

Rydym yn ddiolchgar i'n cyllidwyr; heb eu cefnogaeth ni fyddai ein gwaith yn cefnogi a datblygu gweithgaredd gwirfoddol lleol yn bosibl:

Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, Clystyrau Meddygon Teulu, Cronfa Loteri Fawr, Plant Mewn Angen y BBC a Comic Relief.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey Charitable Trust*

Gyda chefnogaeth | Supported by
BBC Plant mewn Angen Children in Need

COMIC RELIEF

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND
ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

# Gwirfoddoli a Dinasyddiaeth Weithredol: Galluogi pobl i fod yn rhan o, ac yn weithredol yn eu cymunedau, drwy wirfoddoli a bod yn ddinasyddion gweithredol

Canlyniad:
Pobl ym Môn yn cael budd o, ac yn derbyn cydnabyddiaeth am, eu hymrwymiad gwirfoddol

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym ni eisiau i gymunedau Ynys Môn a'i phobl gymryd rhan, gwerthfawrogi ac ymfalchïo mewn gwirfoddoli a gwirfoddolwyr. Trwy weithio'n agos gyda chymunedau ar lawr gwlad i ddarparu gwasanaethau lleol dan arweiniad gwirfoddolwyr, mae Medrwn Môn yn helpu i godi proffil cyflawniadau gwirfoddolwyr unigol a'u cyfraniad ar y cyd i'w cymunedau. Mae'n bwysig ein bod yn dathlu, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r hyn y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Cynhaliodd Medrwn Môn ein digwyddiad dathlu blynyddol ar gyfer gwirfoddolwyr fel rhan o Wythnos Gwirfoddolwyr. Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiad lleol i gydnabod gwirfoddolwyr Ynys Môn a gydnabuwyd trwy Wobrau Gwirfoddolwyr Cymru 2018 mewn seremoni yng Nghaerdydd, a drefnwyd gan WCVA. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn Oriel Môn gyda Chadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflwyno tystysgrifau (gweler ar y dde) i wirfoddolwyr a enillodd neu derbyniodd ganmoliaeth uchel yng Ngwobrau Gwirfoddolwyr Cymru 2018.

- 20 o bobl ifanc yn gwirfoddoli ar y Panel Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc
- Dosbarthwyd £ 10,000 mewn Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc, a hwyluswyd trwy'r Panel Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc
- Gwirfoddolodd 13 o bobl gyda Car Linc Môn
- Ymgymerwyd â 719 o deithiau hanfodol gan yrwyr Gwirfoddol Car Linc Môn
- 18,104 milltir wedi'i yrru gan wirfoddolwyr Car Linc Môn

*Beth oedd ein heffaith?*



Mae Cynllun Gwirfoddol Medrwn Môn, Car Linc Môn, yn wasanaeth i bobl dros 50 oed sy'n byw yn Ynys Môn nad oes ganddynt unrhyw fodd arall o deithio ar gyfer teithiau hanfodol fel apwyntiadau ysbyty a meddyg, siopa, digwyddiadau cymdeithasol ac ymweliadau teuluol. Er mwyn cydnabod ymrwymiad gyrwyr gwirfoddol i gynllun Car Linc Môn, cynhaliodd Medrwn Môn de prynhawn (uchod) yn ystod Wythnos y Gwirfoddolwyr, a gynhaliwyd mewn digwyddiad arbennig ym Melin Llynon yn Llanddeusant i gydnabod gwirfoddolwyr sy'n darparu'r gwasanaeth pwysig hwn.

Dywedodd un gwirfoddolwr Car Linc Môn ei fod wedi gwirfoddoli oherwydd *"Mae'n gyfle i gyfarfod â phobl na fyddwn erioed wedi cael cyfle i gyfarfod fel arall".*

Er mwyn cydnabod gwirfoddolwyr a wobrwywyd yng Ngwobrau Gwirfoddolwyr Cymru 2018, trefnodd Swyddog Cefnogi Linc Cymunedol Môn seremoni arbennig a gynhaliwyd yn Oriel Môn, (isod). Roedd Fay Jones MBE yn un o'r enillwyr cenedlaethol yng Ngwobrau Gwirfoddolwyr Cymru. Wedi'i chofrestru'n ddall, mae Fay yn hynod angerddol am yr RNIB. Yn ogystal â gwirfoddoli diflino, codi arian a hyrwyddo anghenion pobl ddall a rhannol ddall, bu Fay yn allweddol wrth sefydlu menter unigryw ar Ynys Môn, Grwp Llyfrau Gwrando Cymru RNIB, sy'n darparu cyfleoedd i bobl â nam golwg ddod at ei gilydd i ddarllen llyfrau a sgwrsio amdanyn nhw. Canmolwyd Dot Gallagher a Bez Standen yn uchel am eu hymdrechion gwirfoddoli gyda Mencap Môn a Cysylltwch â'r Henoed Cymru.



# Gwirfoddoli a Dinasyddiaeth Weithredol: Galluogi pobl i fod yn rhan o, ac yn weithredol yn eu cymunedau, drwy wirfoddoli a bod yn ddinasyddion gweithredol

## Canlyniad:
## Pobl a chymunedau sy'n ymgysylltu mewn cyd-gynhyrchu gwasanaethau

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym ni eisiau i bobl a chymunedau gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu gwasanaethau. Rydym yn creu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a gwrando trwy ddefnyddio'r model Adeiladu Cymunedau. Mae cyd-gynhyrchu yn ddull seiliedig ar asedau i wasanaethau cyhoeddus, sy'n galluogi darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr i rannu pwer a chyfrifoldeb, ac i weithio gyda'i gilydd mewn perthnasoedd cyfartal. Mae Adeiladu Cymunedau, sy'n fodel a ddatblygwyd gan Medrwn Môn, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn cymuned gyda phobl leol, gwirfoddolwyr a grwpiau trydydd sector, i gynghorau tref a chymuned a cynghorwyr sir lleol. Mae hyn yn creu darlun o asedau cymuned sy'n amrywio o wasanaethau lleol, adeiladau a mannau gwyrdd, pobl, gwybodaeth a sgiliau, rhwydweithiau lleol a gweithgareddau cymunedol. Rydym yn gweithio ar y cyd i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig iddynt. Er mwyn cyflawni ein nod i bawb rydym yn cydweithio â phartneriaid allweddol ar draws y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus, busnes a chyllidwyr i gyd-greu atebion i heriau.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Rydym wedi gweithio gyda chymunedau i sicrhau eu bod yn chwarae rhan wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Fe ddefnyddion ni ddulliau amrywiol ac amgen o ymgysylltu â phobl i gasglu gwybodaeth a fyddai'n helpu i lywio a nodi eu blaenoriaethau yn eu hardal leol ac yn helpu i'w hannog i ddefnyddio'r hyn sydd ganddyn nhw eisoes. Gyda'r dystiolaeth a gasglwyd, buom yn gweithio'n agos gyda grwpiau o bobl i weithredu, ail-gysylltu eu cymuned ac adfer gwytnwch i feysydd lle mae toriadau gwasanaeth wedi effeithio arnynt.

- Cynhaliwyd 20 Sesiwn Mapio Asedau Cymunedol ar draws 5 ardal
- Cefnogwyd 8 Hyb Cymunedol
- Cefnogi 2 Gynghrair a hyrwyddo'r model yn eang
- Tynnwyd sylw at y model Adeiladu Cymunedau i'r Cyngor Sir a datblygu'r prosiect 'Cynllunio Lle'




*Beth oedd ein heffaith?*
Gan hyrwyddo gwaith y model Adeiladu Cymunedau a ddatblygwyd gan Medrwn Môn, mae Cynllunio Lle yn brosiect ar y cyd rhwng Medrwn Môn a Chyngor Sir Ynys Môn sy'n defnyddio dull seiliedig ar asedau i fapio ein cymunedau lleol. Mae'r prosiect yn adeiladu ar y gwaith blaenorol wrth sefydlu Cynghrair Seiriol ac mae'n cael ei gyfeirio trwy'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. Yn 2018, enwebodd pum ward etholiadol eu hunain i fod yn rhan o rownd gyntaf Cynllunio Lle: Twrcelyn, Llifon, Bro Rhosyr, Aethwy a Canolbarth Môn.

Dan arweiniad Rheolwr Prosiect Lleisiau Lleol Medrwn Môn, cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned i'w hyfforddi i ddefnyddio ein hoffer a dechreuodd y gwaith mapio yn fuan wedi hynny. Gwnaethom ddefnyddio dulliau amrywiol ac amgen o ymgysylltu â phobl i gasglu gwybodaeth. Yn dilyn y mapio mae pob cymuned yn gyfrifol am:

- Dod at ei gilydd i edrych ar y dystiolaeth a gasglwyd
- Nodi 3 blaenoriaeth i weithio arnynt ar draws y Ward
- Creu Cynghrair fel gweithgor i symud y blaenoriaethau ymlaen.

Crëwyd cylch gorchwyl ar gyfer pob Ward yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid.
Sefydlwyd y Gynghrair gyntaf yn Ward Twrcelyn ym mis Awst 2018. Bydd pob Cynghrair yn gweithio gyda Chyngor Ynys Môn, Medrwn Môn, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill a mudiadau a grwpiau cymunedol i sicrhau bod y blaenoriaethau a nodwyd yn adlewyrchu'r anghenion gwirioneddol yn ein cymunedau ac yn darparu atebion creadigol i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, gan wneud y defnydd gorau o asedau sydd eisoes wedi'u nodi yn y cymunedau hynny.



# Gwirfoddoli a Dinasyddiaeth Weithredol: Galluogi pobl i fod yn rhan o, ac yn weithredol yn eu cymunedau, drwy wirfoddoli a bod yn ddinasyddion gweithredol

Canlyniad:
Cymunedau sy'n cael budd o wirfoddolwyr a mwy o grwpiau / mudiadau yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli o safon

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym ni eisiau helpu cymunedau, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol i nodi, datblygu a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli hygyrch o ansawdd, a pharu gwirfoddolwyr â rolau addas. Mae Medrwn Môn yn rhannu gwybodaeth ac arfer da i gefnogi gwirfoddoli ledled Ynys Môn. Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ac yn cefnogi mudiadau a grwpiau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr trwy eu cefnogi i sicrhau'r budd mwyaf posibl o wirfoddoli.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Rydym wedi gweithio mewn cymunedau i sicrhau bod pobl yn chwarae rhan amlwg wrth ymateb i heriau a chyfleoedd cymunedol trwy wirfoddoli a chymryd rhan. Gan gymryd agwedd holistig tuag at wirfoddoli, mae Medrwn Môn wedi cynnwys pobl mewn prosiectau a mentrau ar lawr gwlad trwy ein gwaith gyda Chydlynwyr Asedau Lleol a phrosiect Presgreibio Cymdeithasol. Mae Presgreibio Cymdeithasol yn galluogi meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol eraill i atgyfeirio cleifion at ystod o wasanaethau a gweithgareddau anghlinigol lleol.

- Sicrhawyd cyllid i gyflogi 5 Cydlynydd Asedau Lleol ledled yr Ynys
- Wedi derbyn 629 o ymholiadau / atgyfeiriadau i Linc Cymunedol Môn
- Cyfeiriwyd 535 o'r rheini at Gydlynydd Asedau Lleol neu fudiad sector gwirfoddol
- Gwnaed 38 o atgyfeiriadau gan Linc Cymunedol Môn i wasanaethau statudol
- Cofrestrwyd 40 o ddefnyddwyr Car Linc newydd a recriwtiwyd 1 gwirfoddolwr newydd fel Gyrrwr Car Linc
- Wedi cefnogi datblygiad Hybiau Cymunedol
- Cefnogwyd sefydlu Cymunedau a Grwpiau Llywio sy'n Gyfeillgar i Ddementia ar draws Ynys Môn




*Beth oedd ein heffaith?*
Yn dilyn gwaith llwyddiannus y ddau gydlynydd asedau lleol, ac ehangu sgôp yr ymholiadau am gefnogaeth a gwybodaeth gan Linc Cymunedol Môn, llwyddodd Medrwn Môn i greu Prosiect Cyllideb Gyfun gydag arian gan Glwstwr Meddygon Teulu Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn i greu prosiect Presgreibio Cymdeithasol a gyflogai 3 Cydlynydd Asedau Lleol (LACs) ychwanegol i gwmpasu'r Ynys. Roedd cyllid ar gael hefyd i gyflogi Swyddog Llesiant Cymunedol a Trydydd Sector, Swyddog Cefnogi Linc Cymunedol a Swyddog Datblygu Linc Cymunedol i gyflenwi'r gwaith. Mae'r prosiect hefyd yn ymgorffori prosiect Cludiant Cymunedol Medrwn Môn, Car Linc Môn.

Mae Cydlynwyr Asedau Lleol yn gweithio gyda phoblogaethau o hyd at 14,000 o bobl ac maent yn gysylltiedig â meddygfeydd a Hybiau Cymunedol yn yr ardaloedd lle maent yn gweithio. Nod y prosiect yw gweithio gyda phobl yn ein cymunedau a allai fod yn unig neu'n ynysig neu'n edrych i ailgysylltu â phobl. Gallant gyfeirio at y prosiect eu hunain neu gael eu cyfeirio gan un o'r partneriaid niferus i'r prosiect gan gynnwys Cyngor Ynys Môn, Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, staff y Bwrdd Iechyd, meddygon teulu, Heddlu Gogledd Cymru a mudiadau eraill y sector gwirfoddol.

Bydd Cydlynwyr Asedau Lleol yn helpu unigolion i gysylltu â phobl yn eu cymunedau eu hunain a allai fod â diddordebau tebyg neu â gweithgareddau a grwpiau cymunedol y gallent eu mwynhau. Y syniad yw y bydd ailgysylltu pobl yn eu cymuned eu hunain yn eu helpu i ddod yn fwy annibynnol a gwydn, a fydd, yn ei dro yn eu helpu i atal yr angen am wasanaethau statudol yn y dyfodol ac yn gwella eu hiechyd a'u llesiant.



(dde, Cyfeillion Dementia Cybi, gyda chefnogaeth Cydlynydd Asedau Lleol Cybi)

# Llywodraethu'n Dda: Cefnogi ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli i ragori wrth lywodraethu eu mudiadau a chyflawni canlyniadau o ansawdd

Canlyniad:
Mae ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli yn hyderus yn arwain eu mudiadau a chynnal safonau llywodraethu uchel drwy gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym ni eisiau sicrhau bod mudiadau gwirfoddol Ynys Môn yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda ac yn gallu sicrhau canlyniadau o ansawdd. Mae Medrwn Môn yn cynnig ystod eang o wybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau i lywodraethu eu grwpiau cymunedol a'u mudiadau gwirfoddol yn effeithiol. Rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor ac offer i alluogi gweithredu llywodraethu da a gwelliant parhaus. Rydym yn darparu cymorth ymarferol i ymddiriedolwyr a staff cyflogedig i weithredu'n gyfreithiol ac yn effeithiol. Rydym yn helpu mudiadau i adnabod safonau ansawdd perthnasol a gweithio tuag at eu cyflawni. Rydym yn helpu i godi proffil gwerth a chyfraniad y sector i gymdeithas Cymru.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Cafodd grwpiau a mudiadau eu tywys trwy newid gan gynnwys diwygio eu dogfennau llywodraethu. Rydym wedi gweithio gyda mudiadau newydd a sefydledig i'w cefnogi gyda llywodraethu a gweithdrefnau. Mae'r gwasanaeth cymorth wedi'i deilwra i ddatblygu arferion cadarn a gweithredu'n fwy effeithiol. Rydym wedi cefnogi mudiadau gyda materion o sut i sefydlu mudiad i sut i'w ddirwyn i ben, sut i reoli cyllid, canlyniadau a mesur effaith.

- Cynhyrchu 4 rhifyn o'n newyddlen, *Dan Do Môn*
- Darparwyd gwasanaethau ymarferol 19 gwaith
- Sicrhawyd cyllid i ddatblygu gwefan newydd ac ymgynghorwyd â defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau Medrwn Môn ar ddylunio a chynnwys
- Cynhaliwyd 3 digwyddiad / cymhorthfa cyllid
- Cynyddwyd ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth, gyda nifer y dilynwyr yn cynyddu o 311 i 574 ar Facebook ac yn cynyddu o 1544 i 1655 ar Twitter




*Beth oedd ein heffaith?*
Codwyd Neuadd Goffa Bodwrog, ym mhentref gwledig Llynfaes, ym 1920 gan drigolion y pentref i goffau y rhai a gollwyd o'r plwyf.

Heddiw, rheolir y Neuadd Goffa gan bwyllgor o 5 a oedd yn awyddus, wrth i'r Neuadd agosáu at ddathlu ei chanmlwyddiant, i sicrhau bod yr adeilad yn addas i'r diben ac y gallai wasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos am flynyddoedd i ddod.

Cysylltodd aelodau'r pwyllgor â Medrwn Môn i ofyn am gefnogaeth i ddatblygu a sicrhau dyfodol y Neuadd. Darparwyd cefnogaeth Cynllunio Busnes gan Swyddog Datblygu Gwybodaeth a Hyfforddiant Medrwn Môn, ynghyd â throsolwg o bolisïau a gwnaed diwygiadau lle bo angen.

Gwnaeth Pwyllgor y Neuadd gais am arian i'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP). Mae'n gynllun grantiau a weithredir gan Lywodraeth Cymru i helpu grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol i ddarparu cyfleusterau neu gynnal gweithgareddau a fydd yn hyrwyddo adfywio cymunedau.

Gwnaeth Neuadd Goffa Bodwrog gais am arian i foderneiddio ac ymestyn y neuadd i gynnwys toiledau mynediad i'r anabl, gosod system wresogi newydd, gwella cyfleusterau'r gegin a defnyddio'r ardaloedd storio yn fwy creadigol.

Roedd pwyllgor y Neuadd yn falch iawn o sicrhau £111,567 i uwchraddio ac adnewyddu'r neuadd ac roeddent yn ddiolchgar am gymorth a chefnogaeth Medrwn Môn i sicrhau'r cyllid hwn.

Dywedodd aelod o Bwyllgor y Neuadd mai *"Neuadd y Pentref yw ased pwysicaf y gymuned. Gall adeilad sy'n cael ei gynnal yn iawn o faint digonol, sy'n cael ei gadw a'i reoli'n dda, ddarparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, addysg a hamdden ar gyfer pob oedran."*

# Llywodraethu'n Dda: Cefnogi ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli i ragori wrth lywodraethu eu mudiadau a chyflawni canlyniadau o ansawdd

Canlyniad:
Mae gwirfoddolwyr, staff, rheolwyr ac ymddiriedolwyr yn y trydydd sector yn cael mynediad i'r wybodaeth a'r sgiliau i alluogi mudiadau i weithredu'n gynaliadwy, yn deg, yn gyfreithlon ac yn ddiogel

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym ni eisiau sicrhau bod gan sector gwirfoddol Ynys Môn y wybodaeth a'r sgiliau i weithredu'n effeithiol. Mae Medrwn Môn yn helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a medrusrwydd mudiadau. Mae gan wirfoddolwyr, staff, rheolwyr ac ymddiriedolwyr y trydydd sector fynediad at gyngor, arweiniad a gwybodaeth fel bod gan y sector y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i weithredu'n gynaliadwy, yn deg, yn gyfreithiol ac yn ddiogel.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Rydym wedi adnabod anghenion hyfforddi trwy weithio gyda'r sector a phartneriaid eraill i ateb y galw penodol. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar ysgrifennu ceisiadau gyda chyllidwyr. Gwnaethom helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a gallu'r sector i sicrhau cyllid a'i reoli'n effeithiol. Parhaodd y gwaith ar y prosiect Gwerth Cymdeithasol Cymru, dan arweiniad Mantell Gwynedd a ariennir trwy'r Loteri Fawr mewn partneriaeth â'r 6 Cyngor Gwirfoddol Sirol ar draws Gogledd Cymru. Mae Gwerth Cymdeithasol Cymru yn cynorthwyo ac yn hyfforddi mudiadau i fesur a rheoli eu heffaith a'u gwerth cymdeithasol.

- Helpu mudiadau i adnabod safonau ansawdd perthnasol a gweithio tuag at eu cyflawni
- Cynhaliwyd gweithdy ar fesur effaith gyda Gwerth Cymdeithasol Cymru gyda dros 30 o gyfranogwyr yn bresennol
- 4 mudiad yn cael hyfforddiant Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau
- 2 aelod o staff wedi'u hyfforddi mewn Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau

*Beth oedd ein heffaith?*
Mae Gwerth Cymdeithasol yn meintioli'r pwysigrwydd cymharol y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau. Enghreifftiau o werth cymdeithasol fyddai'r gwerth a brofir yn sgil cynnydd mewn hyder, neu o fyw wrth ymyl parc cymunedol. Gall grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol fesur gwerth cymdeithasol y gwaith maen nhw'n ei wneud. Gall gwerth cymdeithasol ddangos buddion cymdeithasol, economaidd ac/neu amgylcheddol ac mae ganddo'r potensial i helpu i newid y ffordd rydyn ni'n deall y byd o'n cwmpas a gwneud penderfyniadau ynghylch ble i fuddsoddi adnoddau.

Mae 2 aelod o staff Medrwn Môn wedi derbyn hyfforddiant ar Fesur Gwerth Cymdeithasol trwy brosiect Gwerth Cymdeithasol Cymru, dan arweiniad Mantell Gwynedd. Mae staff Medrwn Môn wedi gweithio'n agos gyda 4 mudiad gwirfoddol i fesur eu gwerth cymdeithasol a gweithredu'r systemau angenrheidiol i alluogi ymddiriedolwyr i ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth wneud penderfyniadau. Mae'r 4 mudiad yn amrywio o ran eu natur ac wedi gallu trafod a chwestiynu rheolwyr ac ymddiriedolwyr yn adeiladol, gan nodi ac argymell gwelliannau i helpu mudiadau. Gall gwerth cymdeithasol helpu mudiadau i ddylunio systemau a gall helpu i ddatblygu strategaethau i gynyddu gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol a rheoli gweithgareddau.

Yn ogystal â'r sgiliau newydd sydd wedi'u datblygu o fewn Medrwn Môn, mae'r 4 mudiad rydyn ni wedi gweithio gyda nhw wedi cynyddu eu gallu i fesur a rheoli eu gwerth cymdeithasol ac rydyn ni'n edrych ymlaen at eu cefnogi ymhellach yn ystod 2019-20.



Dde, llun o weithdy a gynhaliwyd ar y cyd gyda Gwerth Cymdeithasol Cymru yn amlygu gwerth cymdeithasol a'i bwrpas.

# Llywodraethu'n Dda: Cefnogi ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli i ragori wrth lywodraethu eu mudiadau a chyflawni canlyniadau o ansawdd

Canlyniad:
Mae gwirfoddolwyr, staff, rheolwyr ac ymddiriedolwyr y trydydd sector yn cael mynediad i gyfleoedd rhwydweithio a chydweithredu, enghreifftiau o arfer da ac egwyddorion, a chyfleoedd i rannu profiadau a chodi ymwybyddiaeth o arferion effeithiol ac arloesol

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydyn ni eisiau sector gwirfoddol cysylltiedig ac arloesol ar Ynys Môn.  Mae digwyddiadau rhwydweithio yn ffordd ddefnyddiol a buddiol i grwpiau a mudiadau gyfarfod, rhannu syniadau ac arfer da a datblygu dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau. Mae Medrwn Môn yn annog grwpiau a mudiadau i ddod at ei gilydd fel y gallwn glywed am yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn sydd angen ei wella a'i ddatblygu, ac yna rydym yn rhoi adborth i bartneriaid a chyllidwyr.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Mae Medrwn Môn wedi hwyluso fforymau a rhwydweithiau i ddarparu ymgysylltiad ac adborth. Mae Medrwn Môn wedi darparu llwyfan i'r sector gyfathrebu negeseuon trwy ein rhwydweithiau a'n fforymau ac rydym wedi meithrin perthnasoedd â chyrff cyhoeddus fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd i sicrhau bod y negeseuon hynny o'r sector yn cael eu rhannu.

- Hwyluswyd a chefnogwyd cyfarfodydd, gweithdai a fforymau
- Cyflwynwyd 4 cyfarfod / digwyddiad Rhwydwaith neu Fforwm Trydydd Sector
- Wedi cael presenoldeb yn Sioe Môn
- Trefnwyd a mynychwyd ffeiriau gwybodaeth
- Datglowyd potensial y sector gwirfoddol i hyrwyddo llesiant a modelau ataliol




*Beth oedd ein heffaith?*
Pwrpas Rhwydwaith Llesiant Ynys Môn yw darparu gofod lle gall grwpiau a mudiadau'r sector gwirfoddol gael cyfleoedd i ddod at ei gilydd i rwydweithio, i rannu profiadau, arfer da a syniadau newydd i geisio ateb y galw yn ein cymunedau.

Wedi'i hwyluso gan Swyddog Llesiant Cymunedol a Trydydd Sector a chydweithwyr o Medrwn Môn, rydym wedi ailgychwyn y Rhwydwaith gan ddefnyddio dulliau ymgysylltu newydd.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Rhwydwaith Llesiant Ynys Môn ym mis Rhagfyr 2018 (uchod), lle gwahoddwyd grwpiau a mudiadau y sector gwirfoddol, asiantaethau a gwasanaethau cyhoeddus i Neuadd y Dref. Llangefni. Roedd presenoldeb cryf yn y cyfarfod gyda dros ugain o fudiadau yn cael eu cynrychioli.

Mae siaradwyr gwadd Rhwydwaith Llesiant Ynys Môn wedi cynnwys:
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ynys Môn yn trafod y Strategaeth Pobl H□n
Swyddog Cyllido, Cronfa'r Loteri Fawr
Cadeirydd Cynllun Tro Da Benllech
Linc Cymunedol Môn

Gan ddefnyddio'r 10 Egwyddor Ymgysylltu fel canllaw, mae Medrwn Môn yn defnyddio'r egwyddorion hyn i ymgysylltu'n fwy effeithiol â mudiadau a grwpiau, gan arwain at aelodau'r Rhwydwaith yn cytuno bod hon yn ffordd effeithiol o osgoi dyblygu gwasanaethau, ac yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod staff gweithredol a gwirfoddolwyr ar draws y sector yn ymwybodol o'r cyfleoedd amrywiol sydd ar gael yn eu cymunedau.

# Cyllido Cynaliadwy: Cefnogi grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol i ddod yn fwy cysylltiedig a gwybodus i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol

Canlyniad:
Mae gan fudiadau fynediad i ffynonellau ariannu cynaliadwy, ac maent yn gallu sicrhau a chynhyrchu'r incwm sydd ei angen arnynt i oroesi a thyfu

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym eisiau sector gwirfoddol cadarn a chynaliadwy ar Ynys Môn. Mae Medrwn Môn yn cydnabod cyflawniadau ym maes codi arian, rhannu gwybodaeth, arfer da a meithrin perthnasoedd gwell â chyllidwyr. Rydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau i gefnogi a chynorthwyo grwpiau a mudiadau i symud tuag at ddod yn fwy cynaliadwy a chreu ffrydiau incwm newydd.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Cynigiodd Medrwn Môn ystod o wasanaethau i gefnogi mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol ar Ynys Môn, trwy ddarparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth; cyngor ar ariannu; hyfforddiant a chyrsiau; a chynnig gwasanaethau ymarferol. Gwnaethom weinyddu 6 cronfa allweddol er mwyn galluogi grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol i gael gafael ar gronfeydd yn lleol. Buom yn gweithio gyda chyllidwyr i gynnal cymorthfeydd cyllido i nodi cymhwysedd a photensial prosiect sy'n cael ei gynnig.

- Cefnogwyd grwpiau a mudiadau i sicrhau cyllid
- Gweinyddwyd £100,000 mewn cronfeydd allweddol/grantiau i grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol
- Ariannwyd 21 o grwpiau a mudiadau trwy gynlluniau grant
- Cynhaliwyd 4 digwyddiad/cymhorthfa cyllid

*Beth oedd ein heffaith?*
Mae grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol yn hanfodol wrth greu cymunedau cynaliadwy. Mae pobl sy'n dod at ei gilydd i ffurfio grwp yn helpu i wella cymuned ac yn cynorthwyo cynhwysiant cymdeithasol, yn lleihau eithrio unigolion, ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u cymuned.

Mae sicrhau bod gan fudiadau a grwpiau fynediad at ffynonellau cyllid cynaliadwy yn biler allweddol wrth alluogi cynaliadwyedd tymor hir gwasanaethau o ansawdd a ddarperir gan y sector gwirfoddol. Mae ffynonellau cyllid cynaliadwy hefyd yn galluogi mudiadau a grwpiau i gynhyrchu eu hincwm eu hunain a sicrhau eu dyfodol ariannol.

Cynhaliwyd nifer o gymhorthfeydd cyllid yn ystod 2018-19. Fel rheol, slot hanner awr ydi cymhorthfa cyllid i fudiad neu grwp drafod prosiectau posib a cheisiadau cyllido sydd ar y gweill gyda chyllidwyr.

Gyda chefnogaeth | Supported by BBC Plant mewn Angen Children in Need

Cynhaliwyd cymhorthfa cyllid gan Plant Mewn Angen y BBC, a gwahoddwyd prosiectau ledled Ynys Môn i fynychu y gymhorthfa a hwyluswyd gan Medrwn Môn.

Rhoddodd gyfle i brosiectau gael mynediad at y rhaglen ariannu boblogaidd, sy'n cefnogi prosiectau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ddifreintiedig 18 oed ac iau sy'n byw yn y DU. Mae plant a phobl ifanc dan anfantais yn cynnwys y rhai y mae: salwch, trallod, cam-drin neu esgeulustod yn effeithio arnynt; unrhyw fath o anabledd; anawsterau ymddygiad neu seicolegol; a'r rhai sy'n byw mewn tlodi neu sefyllfaoedd o amddifadedd.

Gwnaeth mudiadau a grwpiau gais am apwyntiad 30 munud gyda'r Swyddog Cenedlaethol ar gyfer Plant Mewn Angen y BBC yng Nghymru – ac fe wnaethant elwa'n fawr o'r cyfarfod wyneb yn wyneb.

# Cyllido Cynaliadwy: Cefnogi grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol i ddod yn fwy cysylltiedig a gwybodus i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol

Canlyniad:
Mae cymunedau a grwpiau cymunedol yn gallu cael cymorth i greu mudiadau newydd neu wasanaethau newydd i ddiwallu anghenion sydd wedi'u hadnabod

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym am i gymunedau, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol yn Ynys Môn allu creu mudiadau newydd neu wasanaethau newydd i ddiwallu anghenion dynodedig Ynys Môn. Mae Medrwn Môn yn helpu cymunedau i nodi anghenion trwy hwyluso Datblygiad Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau a defnyddio dulliau ymgysylltu effeithiol. Rydym yn helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a gallu mudiadau i godi arian a'u rheoli'n effeithiol.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Gweithiodd Medrwn Môn gyda'r sector gwirfoddol i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd i sicrhau cyllid ac adnoddau i gynyddu incwm. Rydym wedi rhannu gwybodaeth, arfer da ac wedi meithrin perthnasoedd gwell â chyllidwyr. Rydym wedi helpu'r sector i nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac wedi cefnogi mudiadau gwirfoddol i fanteisio ar gyfleoedd. Gwelsom fod diffyg gwasanaethau ieuenctid hanfodol a chyllid i redeg gweithgareddau mewn ardaloedd gwledig yn golygu bod pobl ifanc yn wynebu arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd sy'n eu hatal rhag cymryd rhan lawn yn y gymdeithas.

- Cefnogwyd 18 o fudiadau newydd neu wasanaethau newydd
- Adnabod bylchau yn y ddarpariaeth ac amlygu'r bylchau yn unol â hynny
- Cefnogi cymunedau i adnabod anghenion yn lleol trwy'r model 'Adeiladu Cymunedau'
- Gweinyddwyd £100 000 mewn grantiau i grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol




*Beth oedd ein heffaith?*
Nod y cynllun Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc yw cefnogi ystod o brosiectau a gweithgareddau gwirfoddoli, dan arweiniad ac wedi'u cyflawni gan bobl ifanc, gyda cheisiadau yn cael eu dewis a'u hargymell gan banel o bobl ifanc 14-25 oed. Gyda chefnogaeth Swyddog Ymgysylltu Cyngor Ieuenctid Medrwn Môn, mae'r panel yn dyfeisio ei wybodaeth a'i weithdrefnau ei hun. Mae yna bum maes blaenoriaeth: blynyddoedd cynnar, gwell iechyd meddwl, tai, sgiliau a chyflogadwyedd, a gofal cymdeithasol. Ynghyd â sesiynau mapio Medrwn Môn sy'n seiliedig ar asedau ar draws sawl cymuned, buom yn gweithio gyda phobl ifanc i nodi blaenoriaethau yn eu hardaloedd lleol a'u hannog i ddefnyddio'r hyn sydd ganddynt eisoes.

Yn ystod 2018-19, mae grwpiau o bobl ifanc wedi gweithredu a chreu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd trwy'r Grantiau dan Arweiniad Ieuenctid ac wedi gallu....

- Trefnu nosweithiau sinema yn eu neuaddau pentref lleol
- Sefydlu prosiectau sy'n mynd i'r afael â digartrefedd
- Creu lle diogel mewn canolfan gymunedol ar gyfer pobl sy'n byw gyda Dementia
- Codi ymwybyddiaeth o gyflyrau iechyd meddwl ac wedi helpu i lunio gwasanaethau iechyd meddwl ar Ynys Môn at y dyfodol
- Ennill mwy o sgiliau a chyfleoedd cyflogadwyedd i bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan ddigartrefedd.

Roedd dod yn rhan o grwp newydd yn rhoi ymdeimlad o berthyn a chael eu derbyn i bobl ifanc gan bobl ifanc eraill sydd â diddordebau / gwerthoedd tebyg iddynt. Mae cael y cyfle i gwrdd â phobl newydd a rhannu syniadau wedi golygu bod pobl ifanc yn ffurfio perthnasoedd cryf a rhwydwaith o gefnogaeth i'w gilydd, yn ogystal â chreu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion sydd wedi'u hadnabod.

# Cyllido Cynaliadwy: Cefnogi grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol i ddod yn fwy cysylltiedig a gwybodus i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol

## Canlyniad:
## Mae grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth i gyflawni canlyniadau o ansawdd

*Beth rydym yn ei wneud?*

Rydym am i sector gwirfoddol Ynys Môn fod yn sector gwybodus a hyddysg, i fod yn ymwybodol o gyfleoedd posibl a chael mynediad at wybodaeth berthnasol, gyfredol i sicrhau y darperir gwasanaethau a chefnogaeth o ansawdd. Mae Medrwn Môn yn darparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth i ddatblygu gallu cymunedau, grwpiau a mudiadau i sicrhau canlyniadau o ansawdd.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*

Darperir gwybodaeth trwy ein newyddlen chwarterol *Dan Do Môn*. Cynhyrchwyd a dosbarthwyd 4 rhifyn o'r newyddlen. Adnewyddodd Swyddog Datblygu Linc Cymunedol Môn ddiwyg *Dan Do Môn* i fformat mwy modern. Rydym wedi cynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhannu gwybodaeth yn ehangach. Sicrhawyd cefnogaeth i ddatblygu gwefan newydd ar gyfer Medrwn Môn, gydag ymgynghoriad ag aelodau a defnyddwyr gwasanaeth ar ei ddyluniad. Unwaith eto eleni roedd staff Medrwn Môn yn bresennol yn Sioe Môn.

- Cynhyrchwyd 4 rhifyn o *Dan Do Môn*
- Darparwyd gwasanaethau ymarferol 19 gwaith
- Wedi cael presenoldeb yn Sioe Môn
- Trefnwyd a mynychwyd ffeiriau gwybodaeth
- Sicrhawyd cyllid i ddatblygu gwefan newydd ac ymgynghori ag aelodau Medrwn Môn a defnyddwyr gwasanaeth ar ddylunio a chynnwys
- Hyrwyddwyd y defnydd o Dewis Cymru ac infoengine ymysg mudiadau a'u cefnogi i gofrestru
- Cynyddwyd ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth, gyda nifer y dilynwyr yn cynyddu o 311 i 574 o ddilynwyr ar Facebook ac yn cynyddu o 1544 i 1655 o ddilynwyr ar Twitter

*Beth oedd ein heffaith?*

Mae aelodaeth Medrwn Môn yn rhad ac am ddim i unrhyw grwp neu fudiad gwirfoddol / cymunedol sy'n weithredol ar Ynys Môn. Mae ein haelodau yn bwysig iawn i ni, ac yn rhan hanfodol o'r broses gynllunio ar gyfer gwasanaethau Medrwn Môn.

Yn ystod 2018-19 adolygodd Swyddog Datblygu Linc Cymunedol Môn a Swyddog Cyswllt Gwirfoddoli fanylion mudiadau a grwpiau ar gyfer ein system Rheoli Perthynas Cwsmer newydd. Cysylltwyd â'r aelodau er mwyn diweddaru'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd.

Trwy Linc Cymunedol Môn gwnaethom hefyd gynghori mudiadau ar sut i logio manylion ar wefannau InfoEngine a Dewis Cymru. Cyfeiriadur newydd o wasanaethau trydydd sector yng Nghymru ydi InfoEngine. Mae'n gyfle i grwpiau a mudiadau ddarparu gwybodaeth am y gwasanaethau maen nhw yn eu darparu. Mae InfoEngine yn tynnu sylw at amrywiaeth eang o wasanaethau gwirfoddol a chymunedol sydd ar gael. Darperir InfoEngine gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru, partneriaeth o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae Dewis Cymru hefyd yn wefan newydd a all helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth a all wella eu llesiant a chael mynediad at wasanaethau lleol yng Nghymru. Mae'r wefan yn cynnwys cyfeirlyfr o fudiadau lleol a chenedlaethol a gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'n bosib cofrestru gyda www.infoengine.cymru a www.dewis.cymru ar yr un pryd – heb orfod nodi'ch manylion ar y ddwy wefan.




Dde, diwyg newydd i *Dan Do Môn*, newyddlen chwarterol Medrwn Môn

# Ymgysylltu a Dylanwadu:
# Galluogi llais y sector i ddylanwadu ar bolisi ac annog ymgysylltu gweithredol ac effeithiol rhwng cymunedau, y sector gwirfoddol a chyrff cyhoeddus

## Canlyniad:
## Sector sy'n cyfrannu'n effeithiol i bolisïau ar bob lefel ac sy'n cefnogi pobl, cymunedau a chyrff cyhoeddus i harnesu cyfranogiad dinesig

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym am i'r sector gwirfoddol ar Ynys Môn gael llais cryf, hyderus a all gyfrannu'n effeithiol at bolisi ar bob lefel. Rydym am harnesu cyfranogiad dinesig a sicrhau bod pobl, cymunedau a'r sector gwirfoddol yn cael eu clywed a'u gwrando. Rydyn ni eisiau sector gwirfoddol sy'n hyderus bod ei lais yn cael ei glywed.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Mae gan grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol rôl hanfodol wrth fynd i'r afael ag anghenion lleol cymunedau. Gallant gynrychioli llais y cymunedau y maent yn aml yn eu gwasanaethu, gan gynnwys y rhai sydd ar yr ymylon. Gyda chefnogaeth Medrwn Môn, mae grwpiau a mudiadau wedi casglu safbwyntiau a phrofiadau pobl sy'n derbyn neu'n defnyddio eu gwasanaethau ac wedi cyfrannu at gyd-gynhyrchu neu wella gwasanaethau cyhoeddus. Gallant hefyd ddarparu gwybodaeth leol werthfawr ac amrywiol. Mae Medrwn Môn yn darparu llwyfan i'r sector gyfleu negeseuon trwy ein rhwydweithiau a'n perthnasoedd â chyrff cyhoeddus fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol a'r Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori.

- 11 grwp cynllunio strategol neu weithgorau sy'n cynnwys aelodaeth o'r trydydd sector
- Parhawyd i gymryd rhan a chyfrannu at Bwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol Ynys Môn a'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd
- Cymerodd pobl ifanc ran mewn 3 digwyddiad Holi ac Ateb ffurfiol, lle gwnaethant roi eu barn ar ystod o faterion lleol fel digartrefedd a datblygiadau ynni
- Cyfrannwyd at gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

*Beth oedd ein heffaith?*
Mae'r prosiect #MiWnaf yn ymwneud â chefnogi ac annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn prosiectau gweithredu cymdeithasol sydd o fudd iddyn nhw a'u cymunedau.

Roedd grwp o bobl ifanc oedd yn cael eu heffeithio gan ddigartrefedd yn brwydro i ddod o hyd i wybodaeth hygyrch i allu cymryd rhan mewn ymgynghoriadau gwasanaeth. Roedd hyn yn ei dro yn gwneud iddynt deimlo wed'u heithrio ac eisiau gwneud newidiadau i'r gwasanaethau hynny maen nhw yn eu defnyddio bob dydd. Mae #MiWnaf yn brosiect partneriaeth rhwng Medrwn Môn a Digartref Ynys Môn. Wedi'i ariannu gan Comic Relief mae gan y prosiect ffocws gweithredu cymdeithasol, gyda'r bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau Digartref yn cael eu hannog i edrych ar weithgareddau a phrosiectau sy'n sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth wneud penderfyniadau.

Mae 32 o bobl ifanc wedi mynychu grwpiau a gweithdai ym mlwyddyn gyntaf y prosiect. Yn ogystal â hyn, mae'r bobl ifanc wedi:

- Gweithio gyda Chyngor Ynys Môn i gwblhau eu Strategaeth Digartrefedd
- Ymuno â phrosiect Podcast 5 rhan i ledaenu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â digartrefedd ymhlith pobl ifanc a herio'r stigma y maen nhw'n ei brofi
- Ysgrifennu cais am raglen ddogfen a CV grwp a gyflwynwyd i gyfres ddogfen y BBC *It's My Shout*. Heriodd y rhaglen ddogfen, *New Voices from Wales: Hostel Sweet Hostel*, y stigma sydd o gwmpas digartrefedd ymhlith pobl ifanc a sut mae bywyd i bobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn hostel Digartref yng Nghaergybi.
- Siarad am y prosiect #MiWnaf ar ddarllediad 'Diwrnod y Trwynau Coch' ar BBC1
- Wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddechrau datblygu Cerdyn Argyfwng ar gyfer pobl sy'n mynd i mewn i adrannau damweiniau ac achosion brys gyda materion iechyd meddwl a gorbryder. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo'r cardiau ac yn arddangos logo'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i gynyddu perchnogaeth a defnydd o'r cardiau yn Ysbyty Gwynedd.
- Mynychu Hyfforddiant Arwyr Digidol - wedi'i gynllunio i helpu unigolion i ddeall y rhwystrau i gynhwysiant a chefnogi'r rhai sydd wedi'u gwahardd yn ddigidol, i fynd ar-lein.

# Ymgysylltu a Dylanwadu: Galluogi llais y sector i ddylanwadu ar bolisi ac annog ymgysylltu gweithredol ac effeithiol rhwng cymunedau, y sector gwirfoddol a chyrff cyhoeddus

## Canlyniad:
## Sector sy'n cael ei gydnabod fel llwybr hanfodol i gyfranogiad ac ymgysylltu, gan gynnwys gyda grwpiau lleiafrifol a rhai dan anfantais

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym am sicrhau bod cymunedau Ynys Môn yn gydnerth ac yn cael eu grymuso i wneud gwahaniaeth yn lleol. Rydym am i bobl Ynys Môn fod yn frwdfrydig ac yn ymwneud â chynllunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Medrwn Môn yn hwyluso cyfleoedd i bobl a chymunedau nodi pryderon neu anghenion go iawn ac o bosibl cudd, i godi llais, a dylanwadu a dylunio darpariaeth a strategaeth gwasanaethau lleol yn effeithiol.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Mae grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol yn gallu cynrychioli llais y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, gan gynnwys y rhai sydd ar yr ymylon. Gwnaethom ddarparu cefnogaeth a hwyluso cyfleoedd a alluogodd ymgysylltiad a dylanwad ar gyrff perthnasol y sector cyhoeddus trwy ddatblygu ein perthynas. Rydym wedi cynrychioli'r sector ar strwythurau llywodraethu'r sector cyhoeddus, neu wedi hwyluso enwebu ac ymgysylltu cynrychiolydd priodol o'r sector gwirfoddol. Mae hyn wedi galluogi'r sector i gael ei gynrychioli ac wedi cael cyfleoedd i herio a dal y sector cyhoeddus yn atebol o fewn strwythurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

- 84 aelod gweithredol o Gyngor Ieuenctid Llais Ni
- Hwyluso ymgynghoriadau, codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi
- Sicrhau llais a phersbectif y sector ar lefel leol a rhanbarthol
- 3 digwyddiad Holi ac Ateb ffurfiol gyda gwasanaethau cyhoeddus
- 4 gweithdy ymgynghori anffurfiol gyda gwasanaethau
- Cefnogi sefydlu Cyngor Ysgol newydd
- Cyfweliadau teledu a radio

*Beth oedd ein heffaith?*
Cysylltodd Barnardo's Ynys Môn â Chyngor Ieuenctid Llais Ni i helpu i ddylunio Golau, prosiect a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a fydd yn helpu 240 o blant 8-18 oed ar draws Ynys Môn yn ystod y tair blynedd nesaf.

Mae Golau wedi'i gynllunio i ddarparu cefnogaeth un i un i'r rheini sy'n cael trafferth gydag ystod eang o faterion gan gynnwys profedigaeth, hunan-niweidio, iselder ysbryd, arwahanrwydd cymdeithasol, bwlio a chwalfa teuluol tra hefyd yn gweithio gyda'u teuluoedd. Y nod yw ymyrryd yn gynnar fel nad yw plant yn datblygu materion iechyd meddwl mwy difrifol.

Roedd Barnardo's yn cynnwys pobl ifanc yn eu harddegau o Gyngor Ieuenctid Llais Ni wrth wneud y gwasanaeth yn gyfeillgar i blant. Yn ystod gweithdai a hwyluswyd gan Swyddog Ymgysylltu'r Cyngor Ieuenctid, dewisodd pobl ifanc Llais Ni yr enw, gan hefyd ddylunio'r ystafelloedd cyfarfod gyda lliwiau tawel, clustogau a theganau, creu taflenni gwybodaeth, dylunio'r logo ac roeddent hyd yn oed yn rhan o'r broses gyfweld ar gyfer 3 aelod o staff.

Dywedodd un: *"Roeddwn yn hapus yn gadael sesiwn heno gan wybod fy mod wedi gwneud gwahaniaeth."*

Dywedodd Rheolwr Gwasanaeth Plant Barnardo's Ynys Môn, Lyn Môn Owen-Hughes: *"Mae'n bwysig ein bod fel gwasanaeth yn gwrando ar bobl ifanc gan y bydd hyn yn pennu llwyddiant y gwasanaeth gyda chanlyniadau cadarnhaol a gyflawnir gan bawb."*

Mae Cyngor Ieuenctid Llais Ni, prosiect partneriaeth rhwng Medrwn Môn a Chyngor Sir Ynys Môn, yn grwp o bobl ifanc sy'n cael cyfle i ddweud eu dweud yn rheolaidd ar faterion lleol ac yn helpu'r Cyngor i gynllunio, darparu ac adolygu eu gwasanaethau lleol.

# Ymgysylltu a Dylanwadu: Galluogi llais y sector i ddylanwadu ar bolisi ac annog ymgysylltu gweithredol ac effeithiol rhwng cymunedau, y sector gwirfoddol a chyrff cyhoeddus

## Canlyniad: Sector sy’n chwarae rôl effeithiol mewn cynllunio, cyflenwi a chraffu ar wasanaethau cyhoeddus

*Beth rydym yn ei wneud?*
Rydym am i'r sector gwirfoddol ar Ynys Môn fod yn rhan o harneisio potensial yr Ynys a chwarae rhan lawn ac amlwg wrth gynllunio, darparu a chraffu ar wasanaethau cyhoeddus. Mae galluogi i lais y sector gael ei glywed a rhannu'r llais hwnnw yn gwneud cymunedau'n gryfach trwy allu herio a dylanwadu ar sut mae eu gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu.

*Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2018-19?*
Trwy weithio gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol a chyhoeddus, rydym wedi creu modelau ymyrraeth gynnar a all helpu i gyfrannu at yr agenda ataliol. Gallwn ddechrau gweld buddion i wasanaethau cyhoeddus a gwell canlyniadau i bobl. Trwy gydweithio rydym wedi helpu i leihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ac wedi sicrhau bod y sector gwirfoddol yn chwarae rhan effeithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae Medrwn Môn yn darparu llwyfan i'r sector ymgysylltu a dylanwadu trwy ein rhwydweithiau a'n perthnasoedd â chyrff cyhoeddus fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol a'r Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori.

- 11 grwp cynllunio strategol neu weithgorau sy'n cynnwys aelodaeth o'r trydydd sector
- Parhawyd i gymryd rhan a chyfrannu at Bwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol Ynys Môn a’r Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori
- Cyfarfodydd, gweithdai a fforymau wedi'u hwyluso a'u cefnogi i glywed barn y sector gwirfoddol




*Beth oedd ein heffaith?*
Mae Medrwn Môn wedi bod yn rhan o'r rhaglen Gweithredu Cynnar Gyda'n Gilydd, sy'n ceisio hwyluso'r broses o drawsnewid plismona yn ddull aml-asiantaeth, wedi'i lywio gan Brofiadau Plentyndod Anffafriol (ACE), sy'n galluogi ymyrraeth gynnar ac atal achosion sylfaenol. Cyflwynwyd y rhaglen ar Ynys Môn ym mis Rhagfyr 2018 gyda’r nod o leihau nifer yr atgyfeiriadau diogelu gan yr heddlu, gyda chynnydd mewn atgyfeiriadau cymorth cynnar yn lle. Disgwylir y bydd swyddogion heddlu’n ceisio cael y gefnogaeth gywir i blant, teuluoedd ac oedolion yn ein cymunedau gan y gwasanaeth cywir ar y cyfle cyntaf. Bydd y wybodaeth hon ar gael trwy Linc Cymunedol Môn a phwyntiau mynediad eraill. Roedd Heddlu Gogledd Cymru a’r gweithlu ehangach ar Ynys Môn ymhlith y cyntaf yng Ngogledd Cymru i dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth, gan arwain at wella gwytnwch cymunedol. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o Linc Cymunedol Môn a'r sector gwirfoddol ehangach a'i wasanaethau.

Dywedodd y Ditectif Brif Arolygydd Helen Douglas (uchod): *“Mae'n ymwneud â helpu swyddogion yr heddlu i gael y sgiliau a'r wybodaeth gywir a'u grymuso i ddelio â materion a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr.”*

Dywedodd Vicky Jones o'r rhaglen Gweithredu Cynnar Gyda'n Gilydd: *“Ar Ynys Môn, rydym yn archwilio sut y gall mudiadau gwirfoddol a chymunedol gefnogi’r rhaglen Gweithredu Cynnar Gyda’n Gilydd yn ehangach. Gan weithio gyda Medrwn Môn, rydym yn gallu defnyddio eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u profiad i sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cael ei gynnwys gan mai’r sector yn aml sy’n dal yr atebion.”*

Yn y llun, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ymweld â Chanolfan Gymunedol Gwelfor i drafod y prosiect gyda staff Medrwn Môn a phartneriaid.



# Y flwyddyn mewn lluniau

*Ymgysylltu a Gwirfoddoli Ieuenctid*
Mae toriadau mewn gwasanaethau a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod llawer o bobl ifanc wedi'u hynysu'n gymdeithasol yn Llangoed. Roedd grwp o bobl ifanc BFFs Llangoed (ar y dde), eisiau cysylltu pobl o bob oed gyda'i gilydd yn eu pentref. Penderfynon nhw felly i drefnu noson sinema yn eu neuadd bentref leol. Fe wnaethant drefnu 5 noson sinema ar gyfer eu cymuned.







*Hyfforddiant Iechyd Meddwl a Llesiant*
Llongyfarchiadau i 12 o bobl ifanc Ynys Môn - aelodau o Fforwm Ieuenctid 'Llais Ni' - am gwblhau cwrs 'Iechyd Meddwl a Llesiant', gyda hyfforddiant gan Swyddog Materion Cyhoeddus Barnardo's Cymru.

*Ymgysylltu a Gwirfoddoli*
Cafodd grwp o bobl ifanc o Goleg Menai (fel rhan o raglen gymunedol Prince's Trust) ac aelodau o Men's Shed Llangefni ddiwrnod prysur yn paratoi'r tir i greu rhandir. Diolch i'r grwp am helpu'r Men's Shed i ddatblygu eu gardd newydd!








*Ymgysylltu a Dylanwadu*
Pobl ifanc o Llais Ni yn trafod gyda chynrychiolwyr o Pwer Niwclear Horizon a Chyngor Sir Ynys Môn, sy'n arwain ar y rhaglen Ynys Ynni, yn ystod sesiwn 'Hawl i Holi' yn Siambr y Cyngor.

# Y flwyddyn mewn lluniau

*Cyfranogi ac Ymgysylltu*

Trefnodd Cyfeillion Dementia Cefni, Heddlu Gogledd Cymru a Medrwn Môn ddigwyddiad 'Dydd Sul Arian' a arianwyd gan Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT). Dydd Sul Arian yw'r diwrnod cenedlaethol sy'n dathlu pobl hŷn. Cynhaliwyd prynhawn hyfryd o gerddoriaeth, dawnsio, chwerthin a gweithgareddau hwyliog i ddod a phobl at ei gilydd i gymdeithasu yn Neuadd y Dref Llangefni.












*Pobl Ifanc yn Gwirfoddoli ac Ymgysylltu*

Llais Ni yn gweithio gyda Barnardo's Ynys Môn:
Mae aelodau cyngor ieuenctid Llais Ni yn gwneud gwaith ymarferol drwy drawsnewid 2 ystafell therapi newydd a dewis adnoddau priodol i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc a fydd yn derbyn y gwasanaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd gan Barnardo's Ynys Môn, GOLAU.

*Gwirfoddoli Ieuenctid*

Mae aelodau ifanc Caru Amlwch yn gwirfoddoli i wella rhannau o'r dref yn dilyn sicrhau Grant dan Arweiniad Pobl Ifanc i blannu blodau a phlanhigion i wella'r dref.










*Ymgysylltu â'r Sector Gwirfoddol*

Prif Swyddog Medrwn Môn yn cadeirio Digwyddiad Ymgysylltu Cefnogi Trydydd Sector a Gweithdy ar Rymuso Cymunedau yng Nghyd-destun Brexit mewn partneriaeth â WCVA a Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru.

# Y flwyddyn mewn lluniau



*Ymgysylltu â'r Gymuned*
Staff Medrwn Môn yn mynychu Sioe Amaethyddol flynyddol Ynys Môn i arddangos gwaith Medrwn Môn a rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd am sector gwirfoddol Ynys Môn.



*Cyllid Cynaliadwy a Llywodraethu'n Dda*
Gwerth Cymdeithasol Cymru yn arwain gweithdy ar gyfer 4 mudiad sector gwirfoddol a staff Medrwn Môn i gyflwyno egwyddorion Gwerth Cymdeithasol ac amlygu buddion mesur gwerth cymdeithasol i'r mudiad, y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth, cyllidwyr a'r gymdeithas yn gyffredinol.

*Ymgysylltu â'r Gymuned*
Dywedodd Clwb Ieuenctid Llanfaelog wrthym nad oedd digon o weithgareddau ar ôl ysgol i bobl ifanc yn yr ardal a bod gweithgareddau'n rhy ddrud ac yn rhy bell i deithio iddynt, felly gwnaethom drefnu i Aelodau Cymunedol Moto X Trac Môn ymweld â'r clwb i drafod eu clwb newydd a chyfleoedd i ymuno.







*Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia*
Roedd 11 o bobl yn bresennol mewn sesiwn Ymwybyddiaeth Dementia, dan arweiniad Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) lleol.

# Cynlluniau i'r Dyfodol

Mae ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn parhau i weithredu o fewn gofynion Cytundeb Partneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sef ein cytundeb â Llywodraeth Cymru a WCVA i gefnogi a hyrwyddo'r sector gwirfoddol. Mae Medrwn Môn yn aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru, sy'n cyfrannu at alluogi'r sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr ledled Ynys Môn a Chymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigol a chymunedol, rwan ac ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r trydydd sector ar Ynys Môn, gan ddarparu cefnogaeth a chymorth o dan bob un o'r pedair colofn gwaith – Llywodraethu'n Da, Gwirfoddoli a Ddinasyddiaeth Gweithredol, Cyllido Cynaliadwy ac Ymgysylltu a Dylanwadu.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod y trydydd sector yn cael cyfleoedd i gael llais a sicrhau bod llais y sector yn cael ei glywed ar bob lefel. Byddwn yn ymdrechu i barhau i ddysgu o'r prosiect Lleisiau Lleol a sicrhau ei etifeddiaeth trwy weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn trwy'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd a Chyngor Ieuenctid Llais Ni. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau a gwasanaethau'r sector gwirfoddol yn ogystal â bod yn llais cryf i'r sector gwirfoddol ym mhob rhan o'n gwaith.

Trwy yr hyn rydym wedi ei ddysgu o Werth Cymdeithasol a Lleisiau Lleol, byddwn yn annog ac yn cefnogi'r sector i wrando'n effeithiol, ymgysylltu'n ystyrlon a chodi ymwybyddiaeth o fesur yr effaith yma trwy werth cymdeithasol. Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd i rwydweithio, rhannu syniadau, nodi bylchau a siarad â chyllidwyr yn uniongyrchol.

Byddwn yn parhau i weithio ar wneud y mwyaf o gyfleoedd i fudiadau'r sector gwirfoddol a byddwn yn ceisio sicrhau bod y sector yn chwarae rhan lawn a blaenllaw yn y dull 'Presgreibio Cymdeithasol' a 'Cynllunio Lle' a bod y cyfleoedd i'r sector yn cael eu cynyddu i'r eithaf. Byddwn yn parhau i gefnogi'r sector i anelu at gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sicrhau llais y sector yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ym mhob sector i gyflawni hyn.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n chwaer-sefydliadau ledled Gogledd Cymru i fanteisio ar gyfleoedd cymorth rhanbarthol, gan annog cydweithredu ar draws ffiniau siroedd ac ymdrechu i weithio ar draws sectorau, lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol, er mwyn cynyddu cyfleoedd i'r sector gwirfoddol i'r eithaf.

# Crynodeb Ariannol


## Sut mae Medrwn Môn yn cael ei ariannu

Yn flynyddol, mae Medrwn Môn yn llwyddo i ddenu cyllid o wahanol ffynonellau e.e. Cyrff y Llywodraeth, Ymddiriedolaethau Elusennol a Chronfeydd y Loteri.


Cyfanswm Incwm yn ystod 2018-19 oedd: £447,877

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2018-19 oedd: £491,316

Incwm Medrwn Môn yn ystod 2018-19




Gwariant Medrwn Môn yn ystod 2018-19




Cysylltwch â Medrwn Môn am gopi o'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31ain Mawrth 2019

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 25/02/2020 |
| **Pwnc:** | Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol a diweddariad ar faterion Cynllunio Argyfwng yn y Cyngor |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddaru Aelodau ynghylch materion Cynllunio Argyfwng |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Neil Culff, Rheolwr, Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (NWC-REPS) a Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/ion**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar y prif faterion a nodir yn yr adroddiad hwn fel rhan o waith craffu ar drefniadau partneriaeth.

2. Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau eraill yn y dyfodol ar waith y Cyngor i baratoi ar gyfer argyfyngau a hefyd adroddiadau dilyn i fyny penodol yn sgil argyfyngau lleol neu rhanbarthol y bu'n rhaid i'r Cyngor ymateb iddynt.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Nid yw gwaith NWC-REPS yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, drwy fod â chynlluniau addas mewn lle ar gyfer Parhad Busnes ac ymateb i argyfyngau, ynghyd â chynlluniau adfer, mae'r Cyngor yn lliniaru effaith argyfyngau ar gymunedau.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith cynllunio argyfwng ar draws Gogledd Cymru?

2. A oes sgôp ar gyfer mwy o gydweithio ar faterion penodol?

3. Beth yw'r posibiliadau ar gyfer dysgu ar y cyd ar draws y rhanbarth a chyfraniad Aelodau?

4. A oes unrhyw flaenoriaethau penodol y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt yn ystod y 3 blynedd nesaf?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ynghylch y trefniadau rhanbarthol ar gyfer cynllunio argyfwng ac ymateb i argyfyngau, a'r trefniadau sydd o fewn y Cyngor ei hun.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio argyfwng ac ymateb i argyfyngau dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd ar gyfer Argyfyngau a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

Mae'r Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru trwy'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (NWC-REPS), sy'n cael ei arwain gan Gyngor Sir y Fflint. Mae NWC-REPS yn adrodd i Fwrdd Gweithredol, sy'n cynnwys swyddog o bob un o'r Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid i'r gwasanaeth. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am raglenni gwaith rhanbarthol ac yn eu monitro.

Sefydlwyd y gwasanaeth yn 2014 a Gogledd Cymru yw'r rhanbarth gyntaf yng Nghymru i ffurfio gwasanaeth hollol integredig i gynorthwyo pob Cyngor i gyflawni eu dyletswyddau cynllunio argyfwng, parhad busnes ac ymateb i argyfyngau. Un o brif amcanion sefydlu gwasanaeth rhanbarthol oedd cynyddu gwytnwch a gwella'r gefnogaeth arbenigol i awdurdodau lleol.

O fewn y Cyngor, rhennir cyfrifoldebau am gynllunio argyfwng ac ymateb i argyfyngau ar draws gwasanaethau ac mae cynrychiolwyr enwebedig ym mhob gwasanaeth. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Gweithgor Swyddogion Cynllunio

Argyfwng. O safbwynt gwasanaethau, mae'r cyfrifoldeb am gynllunio argyfwng yn cael ei reoli oddi fewn i wasanaeth Busnes y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn elwa o gael mynediad at ystod eang o wybodaeth a chefnogaeth gan y gwasanaeth rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion da ymysg awdurdodau. Fodd bynnag, er mwyn i'r gwasanaeth fod yn effeithiol, mae'n hollbwysig bod gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw, i sicrhau bod cynllunio argyfwng, parhad busnes ac ymateb i argyfyngau yn cael eu sefydlu'n gadarn yn y Cyngor.

**5 (a) Rhaglen Waith Rhanbarthol**

**Ffliw Pandemig**

Mae NWC-REPS yn gweithio ar draws y rhanbarth gyda'r Fforwm Cymru Gydnerth Leol ac asiantaethau partner i adolygu'r trefniadau parodrwydd ar gyfer Ffliw pandemig/ firws corona. Bydd y Cynghorau'n derbyn canllawiau priodol gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ôl yr angen.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Grŵp '4x4 Response Wales'**

Bu NWC-REPS yn gweithio gyda'r sefydliad gwirfoddol i gytuno ar delerau a gweithredu trefniadau ar gyfer defnyddio perchnogion cerbydau 4x4 fel gwirfoddolwyr i gynorthwyo gwasanaethau'r Cyngor, ar adegau o angen, megis yn ystod tywydd garw. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhanbarthol yw hwn a gymeradwywyd gan Fwrdd Gweithredol NWC-REPS.

**Cynllun Argyfwng Ffordd Glandŵr, Llangefni**

Mae NWC-REPS wedi cydweithio â chydweithwyr yn y gwasanaeth Priffyrdd i gynhyrchu Cynllun Argyfwng Lleol, ar ôl cynnal trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Prosiect EXODUS (rhannu gwybodaeth am bobl fregus)**

Mae NWC-REPS a CSYM wedi nodi'r eiddo y mae peryg i lifogydd effeithio arnynt yn y 4 ardal arfordirol, Biwmares, Traeth Coch, Bae Trearddur a Dwyran, a'r 2 ardal sydd dan fygythiad o lifogydd gan afonydd, sef Llangefni a Dwyran. Hefyd, bydd eiddo yn cael ei nodi yn yr Ardaloedd Cynllunio Argyfwng ar gyfer piblinellau pwysedd uchel yng Nghynllun Argyfwng Wales & West Utilities ar gyfer Piblinellau sy'n Achosi Perygl o Ddamwain Fawr, a luniwyd yn unol â Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gadw cronfa ddata o bobl fregus sy'n byw yn yr ardaloedd hyn pe cyfyd argyfwng.

| BLAENORIAETHAU CYNLLUNIO NWC-REPS AR GYFER Y DYFODOL | |
|---|---|
| **Cynllun** | **Statws** |
| Cynllun Llygredd Arfordirol Cynghorau Gogledd Cymru<br>(gydag adrannau penodol ar gyfer Awdurdodau Lleol – Data arfordirol a Chanllawiau Glanhau CSYM) | Bydd y Cynllun Llygredd Arfordirol yn cael ei ddatblygu drwy gymryd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd o’r digwyddiad ym Marina Caergybi – 2020<br>**Amserlen – cychwyn ym mis Chwefror 2020** |
| Cynllun Adfer – cynllunio ar gyfer y broses adfer ac ailsefydlu busnes fel arfer yn dilyn argyfwng yng Nghyngor Sir Ynys Môn | Adolygwyd Templed Gogledd Cymru gan y gwasanaeth rhanbarthol yn 2019 a chynhyrchwyd Cardiau Gweithredu ar gyfer Grwpiau Adfer. Yna, bydd angen nodi Swyddogion o CSYM i ymgymryd â gwahanol rolau yn y cynllun.<br>**Amserlen – Ebrill 2020** |

**5 (b) Agweddau Eraill o Raglen Waith CSYM**

**Rheoli Parhad Busnes**

**1.1. Profi Cynlluniau Rheoli Parhad Busnes – Ymarfer Synergedd, Ebrill 2019**

Cynhaliwyd ymarfer pen desg ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint ym mis Ebrill 2019 i brofi trefniadau. Yn dilyn yr ymarfer hwn, argymhellwyd bod cynlluniau Rheoli Parhad Busnes yn cael eu hadolygu. Fel rhan o raglen waith NWC-REPS ar gyfer 2020/21, bydd y gwasanaeth rhanbarthol yn adolygu’r templed safonol yn ystod Ch3 ac yn darparu canllaw i awdurdodau ynghylch symleiddio cynlluniau, gan gynnwys rhoi mwy o bwyslais ar gardiau gweithredu. Mater arall a nodwyd oedd yr angen am bolisi ynghylch defnyddio staff y Cyngor yn ystod argyfwng. O ganlyniad, paratowyd canllawiau ar gyfer Rheolwyr - Polisi a Gweithdrefn Parhad Busnes ar gyfer Defnyddio Staff mewn Argyfwng. Mae mwy o weithgareddau wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol i wreiddio a phrofi’r cynlluniau, gan gynnwys profi Cynllun Adfer y Pencadlys ym mis Mai 2020.

**1.2 Cynlluniau Rheoli Parhad Busnes Gwasanaeth**

Mae’r HOLL wasanaethau wedi diweddaru eu cynlluniau yn ystod Ch3, gan gynnwys y risgiau’n ymwneud â gadael yr UE heb gytundeb. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud yn y gwasanaeth Addysg, gan gynnwys Llyfrgelloedd, Archifau ac Oriel Ynys Môn fel rhan o’r cynllun Rheoli Parhad Busnes ar gyfer y gwasanaeth.

**1.3 Adroddiad Archwilio Mewnol – Rheoli Parhad Busnes**

Erbyn hyn mae Archwilio Mewnol wedi cynhyrchu adroddiad ar Barhad Busnes ac wedi ceisio ateb y cwestiwn a ganlyn:

- Oes gan y Cyngor systemau cadarn yn eu lle er mwyn gallu ymateb i argyfyngau a/neu amhariad er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol?

Ar y cyfan, mae canlyniad yr adolygiad yn gadarnhaol a rhoddwyd 'Sicrwydd Rhesymol' iddo. Cyflwynwyd yr adroddiad archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 11 Chwefror 2019. Bydd NWC-REPS yn cynorthwyo Cyngor Sir Ynys Môn (drwy'r Gweithgor Cynllunio Argyfwng) i roi sylw i'r argymhellion.

**1.4 Wylfa**

Yn y gorffennol, roedd rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i baratoi Cynllun Oddi ar y Safle ar gyfer Wylfa. Ym mis Medi 2019 roedd NWC-REPS yn gyfrifol am gydlynu a chyflawni ymarfer amlasiantaethol, a gafodd ei dderbyn gan Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear fel prawf o'r cynllun Oddi ar y Safle. Yn dilyn gwaith ar y safle, mae'r Cyngor wedi derbyn cadarnhad nad oes rhaid iddo gael cynllun oddi ar y safle erbyn hyn, ac felly mae'r ddogfen hon wedi cael ei thynnu'n ôl.

**1.5 Hyfforddiant Staff**

Bob blwyddyn, mae'r Fforwm Cymru Gydnerth Leol yn paratoi rhaglen hyfforddiant amlasiantaethol. Mae NWC-REPS yn cynorthwyo'r Cynghorau i nodi anghenion hyfforddi staff ar wahanol lefelau. Mae staff wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi Strategol, Tactegol a Gweithredol ac mae hyfforddiant tebyg wedi'i drefnu ar gyfer 2020/21. Mae hon yn agwedd bwysig o baratoadau'r Cyngor mewn perthynas â chynllunio argyfwng.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Ni chynhaliwyd asesiad.

**7 – Oblygiadau Ariannol**

| Cyfraniadau Ariannol CSYM i NWC-REPS ers sefydlu'r gwasanaeth | |
|---|---|
| 2014/15 | 72,482 |
| 2015/16 | 67,049 |
| 2016/17 | 65,708 |
| 2017/18 | 64,394 |
| 2018/19 | 63,106 |
| 2019/20 | 61,844 |

Mae Bwrdd Gweithredol NWC-REPS wedi cytuno (Tachwedd 2019) i gadw'r cyfraniadau ariannol ar yr un lefel â 2019/20 yn 2020/21.

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol NWC-REPS 2018/19 |

| **9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Cytundeb Lefel Gwasanaeth NWC-REPS a Chytundeb Rhwng-Awdurdodau.<br>Adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 15/10/18. |

| **10 - Dyddiad** |
|---|
| 11/2/20 |



# Adroddiad Blynyddol 2018/19

## Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru

ymholiadau@gcar-cgc.org.uk
01532 702124

Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol – Cynghorau Gogledd Cymru – North Wales Councils – Regional Emergency Planning Service

Cyngor Sir Ynys Môn – Isle of Anglesey County Council; Conwy; Cyngor Gwynedd Council; Cyngor Sir Ddinbych – Denbighshire County Council; Cyngor Sir y Fflint – Flintshire County Council; Wrexham – Wrecsam

## GWASANAETH CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU (NWC-REPS).

**Mae Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth drwy sefydlu Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng ar gyfer Gogledd Cymru yn 2014. Mae'r Gwasanaeth yn ymgymryd â swyddogaethau'r Cynghorau mewn perthynas ag argyfyngau sifil posibl ac mae'n atebol i Fwrdd Gweithredol sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr y Cynghorau hynny. Mae NWC-REPS yn darparu gwasanaeth i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'r deddfwriaethau canlynol:**

- **Deddf Argyfyngau Sifil Posibl, 2004**
- **Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, 2015**
- **Rheoliadau Diogelwch Piblinellau, 1996**
- **Rheoliadau Pelydriad (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd), 2001 a'r Rheoliadau Pelydriad (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd) dilynol yn 2019**

Dyma adroddiad blynyddol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol – Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019. Mae'n cynnwys y gwaith a wnaed gan NWC-REPS ar draws y chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth, ynghyd â'r gweithgareddau amlasiantaeth a gynhaliwyd i gefnogi Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru.

**Mae'r gwasanaeth yn gweithio i:**

- Leihau dyblygu ac ailadrodd tasgau
- Gwella cysoni'r gwaith a gwydnwch y timau
- Gwella'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael drwy rannu cefnogaeth arbenigol a thasgau cyffredin
- Gwella cysondeb yr ymateb rhwng yr awdurdodau
- Gwella sianeli cyfathrebu rhwng Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru a'r awdurdodau lleol






## RHEOLI DIGWYDDIADAU

**Mae NWC-REPS yn darparu Swyddog Dyletswydd 24/7 drwy gydol y flwyddyn i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymateb i argyfwng.**

**Yn 2018/19, cynorthwyodd NWC-REPS yn y rôl hon yn y dulliau canlynol: -**




Yn ogystal â hyn, roedd NWC-REPS yn darparu cefnogaeth barhaus i Gyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â digwyddiad yn ymwneud â difrod i Farina Caergybi a llygredd arfordirol dilynol. Er bod y digwyddiad wedi digwydd ddechrau mis Mawrth, roedd y cyfnod adfer yn para am sawl wythnos. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys trefnu a hwyluso ôl-drafodaeth amlasiantaeth ar gyfer y digwyddiad. Yn ystod y flwyddyn, bu NWC-REPS yn cynrychioli Awdurdodau Lleol mewn Grwpiau Cydlynu Tactegol Amlasiantaeth ar gyfer 2 o'r digwyddiadau uchod (1 wedi'i weithredu a'i reoli gan NWC-REPS) a sawl Grŵp Cydlynu Strategol i baratoi ar y cyd ar gyfer gadael yr UE.




## DYSGU A DATBLYGU

Yn 2018/19, hwylusodd NWC-REPS hyfforddiant ac ymarfer ar gyfer staff Awdurdodau Lleol ar draws 9 testun gwahanol, yn amrywio o wydnwch seibr i reoli digwyddiad strategol gyda dros 60 o weithwyr Awdurdodau Lleol yn eu mynychu. Roeddem hefyd yn croesawu cyfraniadau gan bartneriaid megis y gwasanaethau brys a Chyfoeth Naturiol Cymru yn nifer o'r digwyddiadau hyn.

**Exercise Eupathy 2018**

**Bangor-on-Dee & Rossett**
**18th October 2018**

**Exercise Operational Order**




**"CYFLE DA I CHWARAEWYR GYFARFOD AG UNIGOLION A ALLAI FOD YN GYDWEITHWYR MEWN DIGWYDDIADAU YN Y DYFODOL"**


**"EGLURO NIFER O YMHOLIADAU AC ATGYFNERTHU FY RÔL / DYLETSWYDDAU FEL WARDEN LLIFOGYDD"**


Roedd yr Ymarfer yn ceisio gwella gwybodaeth a pharatoadau amlasiantaeth ar gyfer digwyddiadau llifogydd drwy brofi'r trefniadau yn y Cynlluniau Llifogydd Cymunedol ar gyfer cymunedau Bangor Is y Coed a'r Orsedd. Er ei fod yn ymarfer amlasiantaeth, wedi'i ddarparu drwy'r Fforwm Gwydnwch Lleol, roedd swyddogion NWC-REPS yn allweddol i ddyluniad a darpariaeth y digwyddiad hwn.



## GWYDNWCH CYMUNEDOL


Yn 2018, cynhaliodd NWC-REPS brawf o'i 'Becyn Gwaith' Gwydnwch Cymunedol gyda 4 Cyngor Tref a Chymuned ar draws y rhanbarth. Nod y gwaith yw cynorthwyo cymunedau i baratoi'n well ac i fod yn fwy gwydn wrth wynebu argyfyngau. Rydym yn awr wedi derbyn adborth cymunedau ar ddefnyddioldeb y cynnyrch yn y Pecyn Gwaith. Y gobaith oedd cwblhau'r prawf yn 2018/19 ond oherwydd newidiadau personél o fewn y gwasanaeth, bydd yn gam i'w gyflawni yn 2019/20 i ymgorffori'r adborth i fersiynau gweithiol y gellir eu hyrwyddo ar draws holl ardaloedd yr Awdurdodau Lleol.











**Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae NWC-REPS hefyd wedi lansio ei wefan gyhoeddus, sef lleoliad ar-lein ar gyfer Pecyn Gwaith Gwydnwch Cymunedol, cyngor Parhad Busnes i Fentrau Bach-Canolig, a gwybodaeth gyffredinol am y Gwasanaeth a chynllunio rhag argyfwng.**










## GWYDNWCH SEFYDLIADOL

**Yn ystod 2018/19, cytunodd NWC-REPS gyda'i Fwrdd Gweithredol y byddai'n datblygu model rhanbarthol ar gyfer datblygu gwydnwch drwy Wirfoddolwyr Corfforaethol i gefnogi'r ymateb i argyfyngau. Dechreuodd y gwaith prawf cychwynnol gyda Chyngor Sir y Fflint cyn ei gyflwyno ar draws y rhanbarth yn 2019/20..**









This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **25 Chwefror, 2020** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2019/20 a'r tu draw i hynny** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2019/20<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Bellach, mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Blwyddyn Ddinesig 2019/20**: cafodd raglen waith 2019/20 y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ei chadarnhau gan y Pwyllgor ym mis Mehefin, 2019[3].

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2019/20 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf (12 Tachwedd, 2019).

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2019/20: Chwarter 4. |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| --- |
| Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → IONAWR – EBRILL, 2020**
**[Fersiwn dyddiedig 19/02/20]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Ionawr, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 23/10/19 → 13/01/20)** | **Ionawr, 2020 (21/01/20)** |
| Cynigion cychwynnol cyllideb 2020/21 | Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2019) |
| Cynllun Ymgynghori ar gyllideb 2020/21 | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Adroddiad Cynnydd |
| Panel Sgriwtini Cyllid: Adroddiad Cynnydd | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Cytundeb Gwastraff |
| **Ionawr, 2020 (14/01/20)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni | |
| | |
| **Chwefror, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 03/02/20 → 27/02/20)** | **Chwefror, 2020 (04/02/20)** |
| Cynigion drafft terfynol cyllideb 2020/21 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol: 2020/24 |
| Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Cyllid | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Llyfrgelloedd: 2018/19 (eitem er gwybodaeth) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2018/19 |
| | **Chwefror, 2020 (25/02/20)** |
| | Medrwn Môn |
| | Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | |
| **Mawrth, 2020 (09/03/20)** | **Mawrth, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 10/03/20 → 11/03/20)** |
| Monitro Perfformiad Ch3: 2019/20 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | Cydweithio efo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (anhebygol) |
| Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol: adroddiad cynnydd | Strategaeth Hamdden |
| Protocol Siarad Cyhoeddus – Pwyllgorau Sgriwtini | Protocol Siarad Cyhoeddus – Pwyllgorau Sgriwtini |
| | |
| **Ebrill, 2020 (06/04/20)** | **Ebrill, 2020 (07/04/20)** |
| | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol – Gwynedd a Môn |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: adroddiad cynnydd |

**Eitemau i'w rhaglennu:**
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Amlwch / Llangefni / Seiriol
Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor
Polisi Codi Tâl Galw Gofal: Tenantiaid Tai Cyngor
Adroddiad Blynyddol GwE: 2018/19
Adolygiad Paneli Craffu